

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants

# Arfarniad Cymeriad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

## Ardal Gadwraeth Llandeilo

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 1 |
| 1.0 Cyflwyniad | 2 |
| 2.0 Deall y Safle | 7 |
| 3.0 Datblygiad Hanesyddol | 9 |
| 5.0 Cymeriad a Golwg | 36 |
| 6.0 Dadansoddiad o'r Adeiladau | 57 |
| 7.0 Arwyddocâd | 58 |
| 8.0 Problemau, Bygythiadau, a Chynigion o Safbwynt Rheoli | 63 |
| 9.0 Cyfleoedd | 79 |
| Atodiadau | 82 |
| Atodiad I: Llyfryddiaeth | 83 |
| Atodiad II: Geirfa | 84 |
| Atodiad III: Mapiau | 86 |
| Atodiad IV: Adolygiad Ffiniau | 95 |
| Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol | 99 |


Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Thîm Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Caerfyrddin yn:

BHConsultations@carmarthenshire.gov.uk

*Cyfieithiwyd yr adroddiad hwn gan drydydd parti, ac nid oes gan Donald Insall Associates unrhyw gyfrifoldeb drosto.*


Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol oddi mewn iddo ac sy'n deillio ohono yn eiddo i Donald Insall Associates neu'r cleient neu dan drwydded iddynt. Ni ellir atgynhyrchu naill ai'r adroddiad cyfan hwn neu unrhyw ran ohono, neu unrhyw luniad, cynllun neu ddogfen arall neu unrhyw wybodaeth a gynhwysir oddi mewn iddo mewn unrhyw ffurf, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient, fel y bo'n briodol. O ran yr holl ddeunydd y mae'r hawliau eiddo deallusol wedi eu trwyddedu ynddynt i DIA neu'r cleient, ac mae'r cyfryw hawliau'n perthyn i drydydd partïon, ni ellir eu cyhoeddi neu eu hatgynhyrchu o gwbl mewn unrhyw ffurf, a dylid gwneud unrhyw gais am ganiatâd ar gyfer defnyddio'r cyfryw ddeunydd i'w gyhoeddi neu ei atgynhyrchu yn uniongyrchol i berchennog yr hawliau eiddo deallusol a geir ynddynt.


UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Crynodeb

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Llandeilo ym 1971. Erbyn hyn, mae'n briodol ac yn angenrheidiol i bwyso a mesur arwyddocâd yr ardal hon, ynghyd ag ystyried p'un a yw'r ffiniau presennol yn briodol, a llunio dogfen arfarnu gadarn a fydd yn arwain y gwaith o reoli, diogelu a gwella'r ardal at y dyfodol. Dyna nod y ddogfen hon.

Ceir sawl haen o hanes yn yr ardal, sy'n deillio o'r adeg y goresgynnwyd y dref gan y Rhufeiniaid hyd at ei datblygu yn yr 20fed Ganrif. Gadawodd yr esblygiad hanesyddol hwn etifeddiaeth o nodweddion o ddiddordeb a chymeriad pensaernïol, y mae angen eu diogelu neu wella. Ystyrir mai'r canlynol yw'r nodweddion allweddol sydd o arwyddocâd yn yr ardal:

1. Safle nifer o adeileddau o arwyddocâd hanesyddol: Eglwys Blwyf Sant Teilo, Newton House/ Plas Dinefwr, Castell Dinefwr
2. Patrwm strydoedd y mae llawer ohono wedi goroesi o'r 19eg Ganrif
3. Amrywiaeth o ran y defnydd o adeiladau, eu mathau, eu deunyddiau a'u manylion, sy'n creu diddordeb ac yn newid eich persbectif
4. Afon Tywi a'r olygfa o'r dirwedd allan y tu hwnt i'r Ardal Gadwraeth sy'n cyferbynnu â dwysedd uwch y golygfeydd o'r strydoedd oddi mewn
5. Cysylltiadau cyffyrddadwy â'r defnyddiau hanesyddol
   a helpodd i dyfu'r dref, sef tafarnau a masnach.

Penderfynir y dylai statws yr ardal fel ardal gadwraeth barhau, ond y dylid creu tair ardal gymeriad newydd i adlewyrchu'r gwahanol batrymau datblygu o fewn yr Ardal Gadwraeth, yn ogystal ag addasu dwy ffin i adlewyrchu ei chyflwr presennol ac i gynnwys ardaloedd a anwybyddwyd yn flaenorol ond sy'n arwyddocaol. Awgrymir hefyd y dylid creu ardal gadwraeth ar wahân ar gyfer Ystad Dinefwr.



3



1



4



2




5

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas a Chwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Donald Insall Associates (Insall) mewn ymateb i frîff a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i baratoi Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth ar gyfer Ardal Gadwraeth Llandeilo.

Ariannwyd yr adroddiad trwy grant gan y Gronfa Adfywio Cymunedol. Nod y prosiect yw astudio ac asesu'r Ardal Gadwraeth bresennol er mwyn deall a mynegi'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig, ynghyd ag ystyried p'un a yw'r ffiniau presennol yn briodol, ac i lunio dogfen arfarnu gadarn a fydd yn arwain gwaith rheoli, cynnal a datblygu'r ardal at y dyfodol. Y bwriad yw y caiff y ddogfen hon ei defnyddio gan berchnogion adeiladau sy'n dymuno ymgymryd â gwaith ar eu heiddo, ynghyd â gan benseiri a datblygwyr wrth ystyried gwneud newidiadau i adeiladau presennol, a gan staff yr Awdurdod Lleol i'w cynorthwyo i ddod i benderfyniadau.

Lluniwyd yr adroddiad mewn 4 rhan:

1. Deall yr ardal: Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r ardal, ei datblygiad hanesyddol a'i harwyddocâd.
2. Arfarniad o Safleoedd: Mae hyn yn nodi elfennau allweddol yr Ardal Gadwraeth a'r modd y maent yn cyfrannu at ei chymeriad, ei golwg a'i harwyddocâd.
3. Problemau, bygythiadau a rheolaeth: Mae'r adroddiad yn parhau gyda sylwadau yng nghyswllt problemau a bygythiadau penodol, ac yn nodi cyfres o egwyddorion i helpu i arwain datblygiadau at y dyfodol wrth sicrhau bod yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig yn yr ardal yn cael ei ddiogelu, a lle'n bosibl, ei wella.
4. Cyfleoedd: Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar gyfleoedd a nodwyd a fydd yn llywio'r adran derfynol yr adroddiad.

## 1.2 Diffinio Ardaloedd Cadwraeth

Mae ardaloedd cadwraeth yn 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y byddai'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu olwg'.

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn rhannau amlwg o'r amgylchedd hanesyddol a ddynodir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol am eu diddordeb arbennig o safbwynt pensaernïol neu hanesyddol. Gallai diddordeb pensaernïol gynnwys enghraifft dda o fath penodol o anheddiad, cynllunio trefol, neu grŵp o adeiladau ag iddynt arddull sy'n nodweddiadol o'r rhanbarth neu'r ardal leol, neu sydd o ansawdd uchel o ran pensaernïaeth. Mae diddordeb hanesyddol yn gysylltiedig ag esblygiad hanesyddol rhywle, neu gyfnod arbennig. Gall fod yn gysylltiedig â mudiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol, fel tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archeolegol, bensaernïol neu dopograffig o darddiad datblygiad, a phrif gyfnodau'r datblygiad hwnnw, wedi goroesi'n arbennig o dda. Mynegir cymeriad trwy bethau fel arddulliau adeiladau, deunyddiau, cynlluniau strydoedd, defnydd tir a chyfnodau datblygu.

O fewn y system gynllunio, caiff ceisiadau am newid o fewn yr Ardal Gadwraeth eu hasesu i ddeall effaith bosibl y datblygiad ar arwyddocâd. Mae arwyddocâd yn un o'r egwyddorion arweiniol sy'n rhedeg trwy Polisi Cynllunio Cymru 2021 (PCC). Gall hyn fod o safbwynt arwyddocâd archaeolegol, pensaernïol, artistig neu hanesyddol, a gall ddeillio nid yn unig o bresenoldeb ffisegol rhywbeth, ond hefyd o'i leoliad.

Gosodir rheolaethau rheoliadol ar rai mathau o waith o fewn Ardaloedd Cadwraeth, gan gynnwys dymchwel, gwaith yn ymwneud â choed, a hysbysebion. Mae angen asesu pob penderfyniad cynllunio yn erbyn arwyddocâd yr ardal i sicrhau y caiff ei gynnal a'i wella os yn bosibl.

Mae'r ddogfen hon yn nodi arwyddocâd a chymeriad yr ardal i gynorthwyo'r rheiny sy'n ymgeisio i wneud newidiadau, neu sy'n gwneud penderfyniadau, i ddeall y modd y gall cynigion effeithio hyn, ac i benderfynu p'un a yw hyn yn golygu y bydd unrhyw newid yn gadarnhaol neu'n negyddol.

## 1.3 Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cysylltiedig

Gosodir y darpariaethau allweddol ar gyfer dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth mewn deddfwriaeth, a pholisïau a chanllawiau cynllunio'r llywodraeth. Maent yn cynnwys:

Y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, Chwefror 2021

Nodyn Cyngor Technegol Polisi Cynllunio Cymru 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru 2021

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021

Ceir crynodeb a dolennau i'r dogfennau hyn mewn atodiad i'r ddogfen hon.

## 1.4 Adfywio Treftadaeth

Mae ein treftadaeth adeiledig yn adnodd anferth sy'n helpu i lywio golwg ein trefi a'n pentrefi, ynghyd â'r ymdeimlad a geir oddi mewn iddynt. Bu rhoi bywyd newydd i'r asedau hyn yn un o gonglfeini adfywiad economaidd a chymdeithasol ein trefi. Mae integreiddio treftadaeth o fewn prosiectau adfywio wedi chwarae rôl fwy a mwy pwysig a llwyddiannus mewn sawl cynllun adfywio, gan ddarparu cyfleoedd i waith cadwraeth a datblygu weithio gyda'i gilydd i drawsnewid yr amgylchedd adeiledig. Hyd yn oed mewn cyflwr gwael neu adawedig, mae'n treftadaeth adeiledig yn dal i fod yn 'ased' ag iddo'r gallu i gyfoethogi ein profiad o'r hyn sydd o'n hamgylch trwy wead ei chysylltiadau hanesyddol a chymunedol.
Mae asedau treftadaeth hefyd yn gydran allweddol o ddatblygu cynaliadwy. Mae codi adeiladau newydd i gymryd lle rhai blaenorol yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol o ran ynni, ac mae ailddefnyddio adeiladau'n diogelu'r carbon sydd wedi'i ymgorffori sy'n cael ei ryddhau yn ystod y broses o gynhyrchu'r deunyddiau a ddefnyddir. O safbwynt cadwraeth ynni, gellir gwneud llawer o welliannau i hen adeiladau, a hynny am gost cymharol isel, sy'n creu adeiladau braf, sy'n effeithlon o ran ynni.

Ceir dadl gref o safbwynt economaidd dros adfywio adeiladau hanesyddol. Nid buddion o ran yr adeilad unigol yn unig yw hyn, ond ar gyfer yr ardal ehangach a'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys:

- gwella'r dref a'r mannau o'i chwmpas
- gwelliannau o ran diogelwch personol a lleihau trosedd
- hybu ymrwymiad y gymuned ynghyd ag ymdeimlad o berchnogaeth, sydd wedyn yn helpu i gadw lleoedd mewn cyflwr da ac annog rhagor o fuddsoddiad
- mwy o gyflogaeth
- gwrthdroi'r dirywiad o ran y boblogaeth
- gwella delwedd gyda'r nod o annog mwy o bobl i ddod i mewn i'r dref, ynghyd ag ymwelwyr
- mwy o hyder a chreu ymdeimlad o falchder
- mewnfuddsoddiad anuniongyrchol yn yr ardal ehangach
- defnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy, trwy ailddefnyddio deunyddiau ynghyd ag ynni sydd wedi'i ymgorffori eisoes

Ystyrir weithiau fod asedau treftadaeth yn rhwystr i adfywio, oherwydd eu bod yn rhy gostus, yn annichonadwy, yn aneffeithlon ac nad ydynt yn llwyddo i gyflawni dymuniadau'r sawl sy'n eu defnyddio neu'n eu datblygu. Ond mae treftadaeth yn cael ei gwerthfawrogi gan bobl a chymunedau; mae'n ffurfio rhan o hunaniaeth rhywle neu weithiau'n rhan annatod o leoliad cyfan. Mae adeiladau a mannau hanesyddol yn cyfoethogi ein trefi, ein profiadau, maent yn creu ymdeimlad o le ac yn gyrchfan i ymweld â hi. Yr allwedd i hyn i gyd yw canfod y modd gorau, mwyaf dichonadwy o ddefnyddio ased, y gellir ei wireddu heb amharu ar ei werth o safbwynt cadwraeth, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd. Mae'n bwysig hefyd cydnabod bod pris i'w dalu am beidio ag ymdrechu i geisio integreiddio adeiladau treftadaeth yn llwyddiannus o fewn cynlluniau adfywio. Gall diffyg gofal a chynnal a chadw olygu bod asedau treftadaeth yn dirywio'n gyflym iawn, sydd wedyn yn gostwng ansawdd yr amgylchedd yn gyffredinol, ac yn mynd yn groes i fentrau sydd ar waith.

Mae 'Heritage Works' yn gyhoeddiad ar y cyd rhwng 'Historic England', RICS a Ffederasiwn Eiddo Prydain sy'n helpu i arwain perchnogion a datblygwyr trwy'r broses o adfywio treftadaeth. Ceir dolen ar ei gyfer yn yr atodiad i'r ddogfen hon. Mae ymchwil cyfatebol gan Cadw a Llywodraeth Cymru'n ychwanegu at y drafodaeth hon hefyd.

## 1.5 Datganiad Dull

Ymgymerwyd â'r canlynol wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad hwn::

*1. Adolygiad o wybodaeth sy'n bodoli eisoes*


Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau er mwyn deall yr hyn sydd o ddiddordeb yn yr ardal o safbwynt hanesyddol a phensaernïol, gan gynnwys dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi, cofnodion cynllunio, canllawiau mabwysiedig a rhai sy'n cael eu datblygu, ynghyd â deddfwriaeth ac adnoddau ar-lein.

*2.Casglu Gwybodaeth*

Cynhaliwyd ymweliadau safle gan Insalls yn Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2022 i gynnal dadansoddiad adeiladwaith a gofodol. Ystyriwyd adeiladau a safleoedd o safbwynt tir y cyhoedd, ac ni chawsant eu harchwilio'n fewnol.


*3. Ymgysylltu â'r Gymuned*

Un o nodau allweddol y prosiect yw deall a chyfleu yn glir yr hyn y mae'r gymuned leol yn ei werthfawrogi am yr ardal. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cymunedol a staff perthnasol o fewn y Cyngor wrth ddrafftio'r ddogfen hon, ac mae hyn wedi helpu i ffurfio'r casgliadau y daethpwyd iddynt o fewn y ddogfen. Dylid ystyried y ddogfen hon fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth, ac fe'i rhennir ymhellach â rhanddeiliaid cymunedol perthnasol. Rydym yn croesawu adborth i ddeall barnau lleol ynghylch gwerth nodweddion y treflun, ac o ran problemau a chyfleoedd.




Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo

Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau


Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
LLANDEILO
Pond
Issues
Path (um)
East Lodge
CARMARTHEN ROAD
DIANA ROAD
Recreation Ground
Pavilion
Bowling Green
Sports Facility
Skatepark
Play Area
Tennis Courts
Fire Station
Car Park
Club
Works
HEOL NEWYDD / NEW ROAD
ORCHARD CLOSE
GREENFIELD PLACE
LON CAEFFYNNON
Whitfield Terr
CARMARTHEN STREET
Ty Penlan
NORTH BANK
BANK BUILDINGS
RHOSMAEN ST
A483
Car Park
Clinic
Hall
Capel Newydd
Penybryn
CRESCENT ROAD HEOL CILGANT
LATIMER ROAD HEOL LATIMER
ALAN ROAD
CLARENCE ROAD
Chapel (site of)
Ebenezer Baptist Chapel
Church of St Teilo
KING STREET STRYD Y BRENIN
ABBEY TERRACE/ TERAS YR ABATY
Allot Gdns
YSGUBOR ABAD (TRACK)
GEORGE HILL
Post
CHURCH STREET LON Y LLAN
QUAY STREET
BRIDGE STREET
Six Bells
Depot
HEOL Y CEI
Pen Lan-fawr
Path
Bandstand
Penlan Park
Path (um)
South Lodge
Well
Sewage Pumping Station
CR
Weir
Shingle
Llandeilo Bridge
Drain
MP 17.75

# 2.0 Deall y Safle

## 2.1 Crynodeb o Arwyddocâd a Chymeriad

Ceir crynodeb isod o nodweddion allweddol yr ardal ac eitemau o arwyddocâd (ceir rhestr ehangach yn adran 7).

- Cysylltiadau â Sant Teilo, yr enwyd y dref ar ei ôl, sef ffigwr pwysig yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru yr oedd sôn ei fod wedi'i gladdu yn Llandeilo
- Eglwys Blwyf Sant Teilo, er bod y rhan fwyaf ohoni wedi'i hailadeiladu, ond mae'n tarddu o'r Oesoedd Canol
- Yn ôl y sôn, bu Dinefwr yn brif ganolfan y Deheubarth, sef Teyrnas Gymreig yng nghyfnod yr Oesoedd Canol Cynnar
- Parc Dinefwr
- Cysylltiad â Rhys ap Gruffudd, gyda Dinefwr yn ganolbwynt y pŵer o le yr oedd yn rheoli'r rhan helaeth o dde-orllewin Cymru, ac a oedd hefyd wedi adeiladu'r Newton House cyntaf
- Mae'n cynnwys dwy heneb gofrestredig sy'n gysylltiedig â Chaer Rufeinig Dinefwr a'r Hen Gastell
- Newton House/ Plas Dinefwr, gan gynnwys y dirwedd o'r 18fed Ganrif a ddyluniwyd gan Capability Brown
- Cysylltiad hanesyddol â'r porthmyn a oedd yn enaid tafarnau'r dref a sefydlu'r banciau yn y 18fed Ganrif
- Lle hanesyddol i dorri siwrnai ar y llwybr rhwng Aberhonddu a Gorllewin Cymru, a De Cymru, gyda sawl tafarn wedi'i chreu i'w gefnogi, sy'n dal i fod ar agor heddiw
- Yn gynrychioladol o'r cyfnod twf mwyaf arwyddocaol yn ne-orllewin Cymru yn ystod y 18fed a'r 19eg Ganrif
- Pont Llandeilo sy'n darparu llwybr allweddol dros Afon Tywi
- Patrwm strydoedd y mae llawer ohono wedi goroesi o'r 19eg Ganrif
- Adeileddau rhestredig nodedig, gan gynnwys nifer o flaenau siopau sydd wedi goroesi o'r 19eg Ganrif
- Amrywiaeth o ran mathau o adeiladau, eu defnydd, eu manylion a'u deunyddiau, sy'n newid golygfeydd o'r strydoedd
- Cysylltiad ag Anghydffurfiaeth o fewn de-orllewin Cymru
- Bu nifer o breswylwyr nodedig yn byw o fewn yr Ardal Gadwraeth, a chafwyd sawl digwyddiad nodedig yno
- Golygfeydd allan tuag at y dirwedd amgylchynol, sy'n gwrthgyferbynnu â golygfeydd agosach o'r strydoedd, ynghyd â rhai yn y pellter
- Marchnad ganoloesol adnabyddadwy
- Adeiladau cornel wedi'u dylunio
- Craidd masnachol Llandeilo, gyda blaenau siopau o ansawdd dda, sydd wedi goroesi o'r 19eg Ganrif



Castell Dinefwr



Pont Llandeilo yn edrych i gyfeiriad Heol y Bont

## 2.2 Lleoliad

Mae Ardal Gadwraeth Tref Llandeilo'n cynnwys y rhan fwyaf o ganol y dref yn ogystal ag Eglwys Llandyfeisant, Plas Dinefwr a Chastell Dinefwr, sydd wedi'i leoli mewn gerddi helaeth i'r gorllewin o'r dref, a rhennir perchnogaeth a gwarcheidwadaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw, Yr Eglwys yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Mae Afon Tywi yn ffinio ar yr Ardal Gadwraeth i'r de-ddwyrain a'r gorllewin, ac mae'n gorwedd tua 15 milltir o Gaerfyrddin, tref sirol Sir Gaerfyrddin. Mae'r A483 yn torri trwy ganol y dref, yn rhedeg o'r gogledd i'r de tuag at bont Llandeilo, gan groesi'r afon ar y pwynt isaf o fewn y dref ac yn darparu'r prif lwybr mynediad i'r de.

## 2.3 Topograffi a lleoliad ('setting')

Mae'r dref yn gorwedd o fewn dyffryn Tywi ar lan gogleddol Afon Tywi. Yn gyffredinol, mae'r Ardal Gadwraeth wedi'i rhannu'n ddwy brif elfen, Ystad Dinefwr a'r dref, y mae gan y ddwy nodweddion unigryw. Mae'r dref yn codi'n serth o lannau'r afon, ac yn darparu cyfres o olygfeydd panoramig tuag at yr amgylchedd o'i hamgylch, gyda Choed y Castell fel y pwynt uchaf o fewn y dref ei hun. Lleolir Castell Dinefwr ar y pwynt uchaf o fewn yr amgylchedd amgylchynol, â hwnnw wedi'i adeiladu ar ben bryn gyda disgynfa serth i lawr i ddyffryn Tywi islaw. At ei gilydd, mae'r dref yn dilyn llethr sy'n mynd o'r de i'r gogledd ac o'r dwyrain i'r gorllewin, gyda'r mwyafrif o'r strydoedd wedi'u gosod ar riw. Mae'r lefelau o fewn Ystad Dinefwr yn gyson, ond yn codi'n uchel i fyny i'r Castell ar y llethr deheuol, ac unwaith eto i'r gogledd o Blas Dinefwr.



# 3.0 Datblygiad Hanesyddol

*Crynodeb o Ddatblygiad Hanesyddol Llandeilo*

Roedd Sant Teilo, yr enwyd y dref ar ei ôl, yn ffigwr pwysig yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru, yn ail i neb ond ei gyfoeswr, Dewi Sant. Mae'r nifer o eglwysi a gysegrwyd i Sant Teilo yn Ne Cymru ac yn Llydaw yn cadarnhau pwysigrwydd ei gwlt, ond ychydig iawn a wyddir am ei fywyd.

Yr unig beth pendant a wyddir yw y bu Teilo'n fyw yn y 6ed Ganrif. Ystyriwyd ei fod o Benalun, ger Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro ac y daeth yn Esgob Llandaf. Tybir fod Llandeilo (sy'n golygu mynachdy neu eglwys Teilo) wedi sefydlu eglwys ('clas'- mam eglwys) neu gymuned fynachaidd yn Llandeilo, ac efallai mai'r sefydliad hwn yw tarddiad y dref fodern. Roedd 'Efengyl Lichfield', un o'r llyfrau Cristnogol Celtaidd pwysicaf, a grëwyd tua 730, ym meddiant cymuned grefyddol yn Llandeilo Fawr erbyn y 9fed Ganrif - dyma'r unig dystiolaeth sydd gennym bron o'i fodolaeth. Mae'n bosibl y claddwyd Teilo yn Llandeilo, yn niwedd y 6ed (neu'n fuan iawn yn y 7$^{th}$) ganrif.

**Dinefwr**

Nid yr anheddiad Cristnogol a ddaeth i gael ei adnabod fel Llandeilo oedd yr anheddiad cyntaf yn y cyffiniau. Cofnodwyd caer bentir o'r Oes Haearn i'r gorllewin, yn Ninefwr. Daeth archwiliadau archaeolegol diweddar o hyd i dystiolaeth o ddau anheddiad milwrol Rhufeinig dilynol yno, y ddau ohonynt gyd chaer a ficws, ffyrdd ac (o bosibl) tŷ baddon. Efallai bod yr anheddiad cynharach, mwy yn dyddio o'r cyfnod yn fuan ar ôl dyfodiad y Rhufeiniaid yn 74AD.

Yn ôl testunau o'r cyfnod canoloesol hwyr, disgrifiwyd Dinefwr

fel prif ganolfan Deheubarth, sef teyrnas Gymreig o'r cyfnod

Oesoedd Canol cynnar. Fodd bynnag, (hyd yma) nid oes unrhyw dystiolaeth archaeolegol i gefnogi'r honiad, ac nid oes unrhyw ddogfennau cyfoes i gadarnhau hyn – nid oes unrhyw sôn am Ddinefwr ym Mrut y Tywysogion, neu mewn unrhyw ffynhonnell a ysgrifennwyd cyn y 12fed ganrif.

Mae Dinefwr yn ddyledus am ei arwyddocâd yn Hanes Cymru i'w gysylltiad â Rhys ap Gruffudd - a fu efallai'n gyfrifol am ymdrechu i roi'r argraff y bu gan y castell hanes hirach, a mwy disglair na hynny yr oedd ganddo mewn gwirionedd. Rhys ap Gruffudd oedd un o brif arweinyddion hanes Cymru, a oedd wedi gwthio'r Arglwyddi Eingl-normanaidd yn ôl. Rhoddwyd tir iddo yn Ninefwr gan Harri II ym 1163, a daeth i fod y ganolfan bŵer yr oedd yn rheoli llawer o dde-orllewin Cymru ohoni. Am gyfnod yn ystod diwedd y 12fed ganrif, adfywiwyd y Deheubarth, a Dinefwr oedd ei chanolfan.

Hyd yn oed cyn marwolaeth Rhys ap Gruffudd ym 1197, rhannwyd y diriogaeth rhwng ei feibion ai wyrion, a daeth i fod yn lleoliad rhyfela cyd-ddinistriol ysbeidiol. Ym 1216 – trwy ymyrraeth Llywelyn Fawr o Wynedd – daeth i fod ym meddiant Rhys Grug, pedwerydd mab Rhys ap Gruffudd, a fu farw yn Llandeilo ym 1234. Mae'n bosibl mai ei waith ef yw'r tŵr crwn mawr yng Nghastell Dinefwr.

Fe barhaodd y rhyfela cyd-ddinistriol hyd at goncwest Edward I dros Gymru ym 1277. Roedd Rhys Wndod, gor-orwyr Rhys ap Gruffudd, wedi ildio i Edward, ac wedi cadw y rhan fwyaf o'i ystad. Fodd bynnag, ildiwyd Dinefwr i'r goron, ond yr oedd yn dal i fod o dan reolaeth cwnstabl brenhinol tan y 15fed ganrif, pryd yr oedd Owain

Glyndŵr wedi rhoi gwarchae ar y castell am gyfnod o 10 diwrnod, ym 1403; ni chafodd ei adfer i reolaeth frenhinol lawn am dair blynedd.

Efallai na chafodd y castell fyth ei adnewyddu'n llawn ar ôl y gwarchae, ac fe'i gadawyd yn y 16eg ganrif. Fei hadferwyd yn rhannol yn y 17eg ganrif, pryd y cafodd un tŵr bach ei ail-doi, ac ychwanegwyd tŷ haf ar ben y tŵr, ond erbyn y 18fed  ganrif, roedd yn adfail unwaith eto,

**Aneddiadau Newydd**

Yn y 13eg ganrif, sefydlwyd trefgordd - Dinefwr (a enwyd wedyn yn 'Dre Newydd'/ 'New Town') - y tu allan i furiau'r castell, ac fe gafodd ail drefgordd – 'Newton'/y Drenewydd - ei hadeiladu ar ôl 1277 i gartrefu ymsefydlwyr Seisnig, a oedd yn cadarnhau'r dylanwad brenhinol. Ffynnodd Newton, ond nid oes tystiolaeth o'r un o'r trefi'n parhau uwchben y ddaear. Tybir bod Newton House/Plas Dinefwr bellach wedi'i leoli o fewn yr anheddiad blaenorol, gyda'i dir ar safle'r anheddau canoloesol sydd wedi diflannu bellach.

**Llandeilo ar Ddiwedd yr Oesoedd Canol**

Erbyn diwedd y nawfed ganrif, roedd pwysigrwydd Llandeilo fel canolfan grefyddol wedi lleihau, ar draul sefydliadau llewyrchus Tyddewi a Llandaf. Ac yn y blynyddoedd yn dilyn y Concwest Normanaidd, roedd y ddau wedi hawlio Llandeilo fel rhan o'u hesgobaeth eu hunain. Erbyn dechrau'r 12fed ganrif, roedd y dref a'r eglwys o dan nawdd Esgob Tyddewi. Ym 1215, meddiannwyd yr eglwys gan Abaty Talyllychau, sy'n chwe milltir i'r gogledd.

Yr eglwys fyddai wedi bod yn ganolbwynt i'r dref ganoloesol, ac mae'n debyg bod y fynwent fawr sy'n goroesi heddiw yn dyddio o flynyddoedd cyntaf un yr anheddiad. Hefyd, erbyn y cyfnod ar ôl y goresgyniad, mae'n debyg y sefydlwyd y ffyrdd o amgylch y fynwent (Stryd y Brenin, Heol-y-Banc, Lôn-y-Llan a Theras yr Abaty), yn ogystal â'r brif ffordd (Stryd Rhosmaen) a Stryd Caerfyrddin i'r gogledd-orllewin. Rhoddwyd ffair i'r dref gan Edward I ym 1290, ac mae'n debyg y'i cynhaliwyd yn y farchnad, ar ochr ogledd-orllewinol y fynwent.

A honno mewn lleoliad strategol ar y briff ffordd o Lundain i Sir Benfro, roedd Llandeilo yn agored i ymosodiadau, ac i ddinistr strategol gan amddiffynwyr tiroedd Cymru. Ym 1213, rhoddodd Rhys Grug, a orchfygwyd ychydig cyn hynny yn Nhalyllychau, y dref ar dân i'w harbed rhag mynd i ddwylo'r gelyn. Ac ym 1277, cipiwyd y dref gan fyddin Edward I, cyn mynd ymlaen i ddarostwng Cymru gyfan.

Ym 1282, roedd Llandeilo yn safle buddugoliaeth fawr i Gymru, pryd ymosododd milwyr Cymreig ar fyddin Seisnig Gilbert de Clare a oedd ar y ffordd i Gastell Dinefwr, a oedd ym meddiant y Saeson, ar ôl llwyddo i anrheithio Castell Carreg Cennen.

Cafodd Llandeilo a Chastell Dinefwr eu difrodi'n ddrwg yn ystod y gwrthryfel Cymreig a arweiniwyd gan Llewelyn Bren ym 1316. Ac ym 1403, fe gafodd Llandeilo a Newton eu llosgi wrth i Owain Glyndŵr ymdeithio trwy ddyffryn Tywi.

Nid oes unrhyw adeiladau'n goroesi o'r Canol Oesoedd, gyda diolch (yn rhannol) i derfysg y cyfnod. Mae'n debyg yr adeiladwyd yr eglwys ar ôl dinistr 1403, ond ni lwyddodd i oroesi'r 19eg ganrif, ac fe ailgodwyd y rhan fwyaf ohoni ym 1848. Ystyrir fod y tŵr yn dyddio o tua 1600.

Cafwyd pont dros afon Tywi yn gynnar iawn, ond mae'n debyg yr adeiladwyd rhagflaenydd y bont a geir yno heddiw – sy'n adeiledd carreg ag iddo saith bwa – ar ddiwedd yr Oesoedd Canol, efallai gan Rhys ap Thomas o Ddinefwr, ar ôl buddugoliaeth Harri'r VII ar Faes Bosworth yr oedd ei filwyr Cymreig wedi ei helpu i'w gyflawni. Er mai yn Abermarlais yr oedd ei brif gartref, efallai mai Syr Rhys a adeiladodd y Newton House cyntaf yn Ninefwr.

**Llandeilo yn y Cyfnod Modern Cynnar**

O'r unfed ganrif ar bymtheg, roedd Llandeilo wedi cael bodolaeth cymharol ddistaw fel canolfan farchnad (un o saith yn Sir Gaerfyrddin) ei chefnwlad amaethyddol. Ond roedd bywyd yno'n cael ei sbarduno o bryd i'w gilydd gan bresenoldeb achlysurol herwlongau a oedd yn teithio i mewn i'r wlad o Fôr Hafren. Byddai beilïaid yn casglu'r

tollau, byddai'r ynadon yn gweinyddu cyfiawnder, a heddgeidwad yn cadw'r heddwch. Un o uchafbwyntiau'r calendr oedd diwrnod yr etholiad pryd y byddai torfeydd mawr yn ymgynnull.

Allwedd i economi'r dref yn y cyfnod hwn oedd y porthmyn, a fyddai'n gyrru da byw i'r farchnad yn y dref, a thu hwnt, o'r de a'r gorllewin i'r dref i Lundain. Roedd y porthmyn yn ffigyrau allweddol yn y ffair flynyddol, ac yn enaid tafarnau'r dref. Y porthmyn oedd yn gyfrifol am sbarduno a galluogi'r busnes bancio yn y rhanbarth, a ddaeth â rhagor o ffyniant i'r dref.

Erbyn y 18red ganrif, roedd y coetsis mawr yn gyfrannwr arwyddocaol arall i economi'r dref, gyda Llandeilo'n darparu man hwylus i dorri'r siwrnai ar y llwybr rhwng Aberhonddu a Gorllewin Cymru, a De Cymru. Roedd sawl tafarn yn y dref yn darparu stablau i'r ceffylau, ynghyd â llety a lluniaeth i deithwyr. Ymhlith y tafarnau hyn yr oedd y 'Six Bells', y
'Boot and Shoe', y 'White Lion', y 'Red Lion', y 'George Inn', a 'The Bear' (sef y 'Cawdor Arms' erbyn hyn).

Ymddengys nad oedd y dref at ddant pob ymwelydd. Ym 1775, ysgrifennodd Syr Thomas Gray Cullum 'the mud houses of the people of these parts are of the most wretched construction. The walls do not consist of mud and plaster, but are entirely of earth, and that not of straw wrought up with it, but with sometimes a layer of stones'. Gan ysgrifennu ym 1791, ysgrifennodd Mrs Morgan o Drelái fel a ganlyn:

'I thought the town of Llandovery a miserable one but this of Llandeilo much worse. I never saw a place which had a more deplorable appearance. The streets, if so they may be called, are narrow and dirty and half-paved with stones, the sharp ends upwards. The houses are built from a kind of stone; but it is of so crumbling nature that they appear to be falling into a decay'.

Hwyrach bod y sylwadau hyn yn taflu goleuni pellach ar pam mai adeiladau o ddiwedd y 18fed ganrif, ac yn enwedig y 19eg ganrif yw'r adeiladau amlycaf yn y dref erbyn hyn.

Ymwelodd y Brenin Siôr IV â'r dref yn y 1820au, ac mae enwau'r strydoedd Stryd y Brenin, Allt Siôr/George Hill a Stryd Siôr yn coffáu'r achlysur hwn. Ni chofnodwyd ei farn am rinweddau'r dref.

**Newton House a Dinefwr yn y 16eg a'r 18fed Ganrif**

Ym 1592, etifeddwyd Dinefwr gan Syr Walter Rice ac, yn ystod y ganrif ddilynol, ehangwyd yr ystad yn sylweddol trwy ei brynu. Fe ailgyfeiriwyd y ffordd o Landeilo i Gaerfyrddin i'r dwyrain o'r parc, i baratoi am adeiladu tŷ newydd Newton House, ynghyd â thirweddu ei barc. Mae'r tŷ newydd yn dyddio o tua 1660, ond crëwyd y parc tirwedd - fel y mae'n goroesi heddiw - gan y dylunydd tirweddau enwog o'r 18fed ganrif, Capability Brown, ac fe'i cwblhawyd ym 1775. Ychwanegwyd tyrau a murfylchau i Newton House tua'r un adeg.




Cynllun o'r dref y tybir ei fod yn deillio o'r 14eg ganrif

## Llandeilo yn y 19eg Ganrif

Roedd y 19eg ganrif yn adeg o ehangu a gwelliant. Rhywbryd cyn 1840, adeiladwyd Heol y Bont, a dorrodd y fynwent yn ddwy er mwyn ceisio ei gwneud yn haws i ddynesu at y dref o'r bont dros afon Tywi. Ym 1843, dechreuodd gwaith ar bont newydd, i gymryd lle gweddillion yr adeiledd o ddiwedd y cyfnod canoloesol, yr oedd rhan ohoni wedi'i hatgyweirio â choed am flynyddoedd lawer. Agorwyd y bont newydd, a ddyluniwyd gan William Williams o Landeilo, ym 1848.

Tua chanol y ganrif, sefydlwyd yr Heol Newydd a oedd yn cysylltu Stryd Caerfyrddin â Stryd Rhosmaen (dengys y ffordd a fwriadwyd, ag iddi aliniad ychydig yn wahanol, ar fap degwm 1841) ac yn caniatáu i draffig ar yr A40 osgoi canol y dref.
Yn ddiweddarach yn y ganrif, adeiladwyd Heol Cilgant a Stryd Ebeneser i'r de-ddwyrain, a oedd yn rhedeg o ben Lôn-y-Llan i Stryd Rhosmaen, gyferbyn â'r gyffordd a adeiladwyd yn ddiweddar â Heol Newydd.

Fe gafodd ffyrdd newydd y cyfnod, o ddechrau i ganol y 19eg ganrif, eu leinio ag adeiladau newydd, ond gwelodd y cyfnod hwn hefyd waith ailadeiladu helaeth, ynghyd â chodi adeiladau newydd yn lle adeiladau gwreiddiol y dref, a roddodd gymeriad eithaf unedig i Landeilo ar ddechrau'r 19eg ganrif. Roedd hyn yn wahanol iawn i hynny a nodwyd gan Cullum yn y 1770au.

Ym 1856, daeth y rheilffordd i Landeilo, ar gyrion ochr ddwyreiniol y dref. Roedd y lein yn rhan o lwybr o'r Amwythig i Abertawe (trwy Craven Arms), a gefnogwyd gan y 'London North Western Railway Co', i dorri gafael haearnaidd y 'Great Western Railway', a chwmnïau cysylltiedig, dros draffig De Cymru. Yn ddiweddarach,





Troshaen Ffiniau Hanesyddol Llandeilo ym 1885 (a atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

roedd lein o Gaerfyrddin - a adeiladwyd gan y 'Llanelly Railway Company' - wedi cyrraedd Llandeilo, a wnaeth y dref yn gyffordd. Gweithredwyd Dyffryn Tywi (sef rhan o'r hyn a elwir heddiw yn Rheilffordd Calon Cymru/ 'Heart of Wales Line') ar y cyd rhwng y GWR a LNWR (LMS, ar ôl 1923) - gweithredwyd y gangen i Gaerfyrddin gan LNWR/ LMS. Rhoddodd y rheilffordd fynediad uniongyrchol newydd i weddill De Cymru a Lloegr ar gyfer cynnyrch amaethyddol, a chaniataodd i ddinasyddion y dref deithio ymhellach ar gyfer gwaith a hamdden.

Yn wreiddiol, roedd y brif ddynesfa at yr orsaf o'r gogledd-orllewin, tra bo llwybr yn arwain o ben stryd fer bresennol a oedd yn rhedeg oddi ar Stryd Rhosmaen, yn union i'r gogledd o groesfan Heol Cilgant/Heol Newydd/ Stryd Rhosmaen. Ailenwyd y brif ffordd i'r gogledd o'r groesfan yn Deras y Rheilffordd, ynghyd â'r rhan i'r gogledd o hynny'n Heol yr Orsaf. Sefydlwyd y datblygiad o dai rhwng Teras y Rheilffordd a'r orsaf ar ddiwedd y 19eg ganrif, gyda Heol Alan yn cymryd lle'r llwybr at yr orsaf o'r gorllewin, ynghyd â Heol Latimer, Clarence a Stepney yn ymestyn i'r de, a Heol Thomas i'r gogledd.

**Anghydffurfiaeth**

Fel mewn mannau eraill o Gymru, roedd dyfodiad y 'capel' yn thema arwyddocaol yn y 19eg ganrif. Rhwng 1763 a 1765 gwnaeth John Wesley, sefydlwr Methodistiaeth, sawl ymweliad â Sir Gaerfyrddin, gan aros weithiau yn 'The Bear Inn', ac ym 1806, sefydlwyd Capel Methodist yn y cyffiniau. Hyd yn oed cyn hynny, y Capel Methodist Calfinaidd oedd yr addoldy cyntaf i agor yn y dref: agorodd yr adeilad ar Stryd Rhosmaen ym 1788. Dilynodd Capel Methodist Wesleaidd ym 1810, ac fe'i hehangwyd ym 1849.




Troshaen Ffiniau Hanesyddol Llandeilo ym 1907 (a atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

Fe gafodd Capel Bedyddwyr Ebeneser ar Heol Cilgant ei adeiladu ym 1829, a'i ailadeiladu ym 1877, gan George Morgan. Adeiladwyd Capel Methodist Calfinaidd Salem ar Heol Newydd ym 1873, a oedd yn cymryd lle'r adeilad cynharach ar Stryd Rhosmaen, a ddaeth i fod yn ysgol, ac a addaswyd wedyn i fod y Sefydliad Cyhoeddus a'r Llyfrgell. Ym 1900, cymerwyd lle'r Capel Methodist Wesleaidd oddi ar Stryd Rhosmaen gan adeilad newydd ar Heol Latimer (sydd wedi'i addasu bellach ar gyfer tai). Agorodd Capel Newydd (Annibynnwr) ar Heol Cilgant ym 1902.

I'r gorllewin o Landeilo, ail-fodelwyd Newton House yn helaeth yn y 1850au, yn ôl dyluniadau gan R.K. Penson o Groesoswallt. Cynhaliwyd y gwaith ailfodelu, a oedd yn cynnwys ail-wynebu mewn calchfaen, mewn arddull Gothig Fenisaidd, a oedd unwaith eto'n cuddio tarddiad yr adeilad o'r 17eg ganrif. Yn ffodus, mae gwaith Jacobeaidd pwysig yn goroesi y tu mewn.


### Llandeilo yn yr 20fed ganrif

Roedd yn rhyfeddol mai ychydig iawn yr oedd cynllun strydoedd y dref wedi newid dros gyfnod yr 20fed ganrif. Roedd y datblygiad cyn hanner olaf y ganrif wedi'i gyfyngu'n bennaf i waith adeiladu newydd ar ffyrdd sefydledig rhwng Heol yr Orsaf a'r orsaf, Heol Diana, oddi ar Stryd Caerfyrddin, a osodwyd yn y 1930au, ynghyd â datblygiad newydd i ochr orllewinol Stryd Rhosmaen (Heol Y Garreg Las), a osodwyd yn union ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Adeiladwyd Lôn Dinefwr i'r gorllewin o hon ar ddiwedd yr 20fed ganrif, ac mae rhagor o waith adeiladu tai, i'r gorllewin, yn nhro Stryd Caerfyrddin a ffordd osgoi ogleddol yr A40, yn dyddio o flynyddoedd cyntaf y 21ain ganrif.



Troshaen Ffiniau Hanesyddol Llandeilo ym 1953 (a atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

Thema'r 20fed ganrif oedd y cynnydd o ran traffig ffordd a oedd yn pasio trwy'r dref ar yr A40 rhwng Llundain ac Abergwaun, ynghyd â chefnffordd yr A483 rhwng Abertawe a Chaer. Fe gafodd traffig yr A40 drwy'r dref ei wyro o ganol y dref, gan adeiladu Heol Newydd yn y 19eg ganrif, ac roedd Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig ym 1989 wedi awdurdodi adeiladu ffordd osgoi, a aeth â'r A40 i ffwrdd o'r dref yn gyfan gwbl. Fe gafodd hon ei hadeiladu a'i hagor ym 1994. Mae Llandeilo yn dal i ddisgwyl am y ffordd osgoi hirddisgwyliedig a fydd yn gam ymhellach i fynd â'r traffig sy'n mynd trwy'r dref ar yr A483 i ffwrdd o ganol y dref. Mae'r dref yn dal i gadw ei chysylltiad rheilffordd a'i gorsaf, er y gwelwyd cau'r gangen i Gaerfyrddin ym 1963, fel rhan o doriadau Beeching.




Troshaen Ffiniau Hanesyddol Llandeilo ym 1964 (a atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

# 4.0 Dadanosoddiad Gofodol

### 4.1 Golygfeydd i mewn i'r Ardal Gadwraeth, oddi mewn iddi, ac o gyfeiriad yr Ardal Gadwraeth

Dylai effaith datblygiadau arfaethedig gynnwys ystyriaeth o olygfeydd i mewn i'r Ardal Gadwraeth, oddi mewn iddi, ac o gyfeiriad yr Ardal Gadwraeth. Nodir y canlynol heb adael allan golygfannau eraill, a gellir eu gweld ar y map a ganlyn. Mae gan yr Ardal Gadwraeth dair elfen wahanol, y mae gan bob un dirnod amlwg fel y nodir isod:

*Eglwys y Plwyf Sant Teilo – Tref Llandeilo*

Mae Eglwys Sant Teilo'n nodweddu tarddiad canol canoloesol y dref, ac yn dal i feddu ar olygfeydd o gyfeiriad hanner deheuol y dref, ac oddi yno, a thrwy'r rhan honno, yn enwedig wrth groesi pont Llandeilo, sy'n darparu tirnod yn y nenlinell. Hefyd, mae topograffi'r dref yn creu cyfres o olygfeydd panoramig o dwr yr eglwys o'r ffyrdd amgylchynol.

*Newton House/ Plas Dinefwr – Ystad Dinefwr*

Mae'r tir sy'n gorwedd yn gymharol wastad hyd at Ystad Dinefwr, ynghyd â'r ffordd ddynesu droellog, yn darparu cyfres o olygfeydd i'r pellter tuag at y tŷ, sy'n ei nodweddu fel calon yr ystad ac yn darparu cyrchfan o sawl cyfeiriad.

*Bandstand Llandeilo – Parc Penlan*

Mae'r bandstand rhestredig yn sefyll ar y pwynt uchaf yn y dref a Pharc Penlan ac, fel y cyfryw, mae'n cynnig tirnod amlwg y gellir gweld y dirwedd amgylchynol oddi yno, ynghyd â chanolbwynt o fewn y parc.



Y bandstand ym Mharc Penlan




Golygfa o Eglwys Sant Teilo o Heol y Bont



Ystad Dinefwr yn edrych tuag at Newton House

*Golygfeydd o'r Strydoedd*

Mae gan y dref batrymau strydoedd amlwg sy'n newid y modd yr ydych yn gweld y strydlun. Mae Stryd Rhosmaen a Heol y Bont yn torri trwy ganol y dref ac yn cynnig golygfeydd hir, di-dor, cymharol syth, sy'n caniatáu darllen nodweddion yr adeiladau gyda'i gilydd. Fel y cyfryw, gallai newidiadau bach a chronnol, ynghyd â datblygiadau mawr ar hyd y golygfeydd hyn, neu sy'n eu terfynu, amharu ar y nodwedd hon. Mae Heol yr Eglwys, Heol Cilgant a Heol Newydd yn creu perimedr i ganol y dref, sy'n creu cylch o amgylch tair ochr i'r Ardal Gadwraeth. Fel Stryd Rhosmaen a Heol y Bont, maent yn darparu golygfeydd hirach o'r stryd ond gyda throadau bach sy'n eich annog i symud trwodd ac i archwilio bob un yn eu tro. Oddi mewn iddynt, ceir cyfres o lonydd, strydoedd, a strydoedd cefn o weddau byrrach a mannau fel yr hen farchnad yn Stryd y Brenin. Mae gan bob un ei gymeriad ei hun ac maent yn creu cyfres o rannau sy'n amgáu ac yn cyfyngu'r golygfeydd tuag at allan yn eu ffordd unigryw eu hunain. Fel mewn ardaloedd eraill, gallai newid, neu gael gwared ag adeiladau ar hyd y llwybrau, amharu ar nodweddion y mannau hyn yn sylweddol, er y gallai'r effaith fod wedi'i gyfyngu mwy i'w cyd-destun uniongyrchol.

Nodir isod olygfeydd o bwys o ran strydoedd, heb adael rhai eraill allan:

Heol y Bont i Stryd Rhosmaen

Cyffordd Heol Newydd i Stryd Rhosmaen

Stryd y Brenin i Heol y Bont

Stryd y Farchnad i Heol y Bont

Heol-y-Banc i George Hill

Stryd Siôr i Stryd Caerfyrddin

Stryd Caerfyrddin i Heol y Bont

Heol Cilgant i'r gyffordd â Stryd Rhosmaen

Lôn-y-Llan i Heol y Bont

Teras yr Abaty i Heol y Bont

Stryd Rhosmaen i Adeiladau'r Banc



Stryd Caerfyrddin gan edrych i'r dwyrain i gyfeiriad Heol y Bont



Stryd Caerfyrddin o Heol y Bont



Heol Cilgant gan edrych i'r dwyrain


*Y dirwedd amgylchynol a mannau agored*

Oherwydd topograffi'r ardal, ceir amryw fannau lle gallwch weld y dirwedd amgylchynol, yn ogystal ag Afon Tywi. Mae'r rhain yn agweddau pwysig ar yr Ardal Gadwraeth y dylid eu cynnal. O fewn canol y dref, yn nodweddiadol, fe'u ceir ar y strydoedd sy'n ffinio ar yr Ardal Gadwraeth, yn ogystal â'r cipolygon o olygfeydd lle ceir bylchau yn y llinell adeiladau. Ceir golygfeydd o bwys o Heol-y-Banc, Heol y Bont, Lôn-y-Llan, a Heol Cilgant, yn ogystal ag o Barc Penlan a Chastell Dinefwr.

*Golygfeydd terfynedig a chaeedig*

Mae cipolygon o olygfeydd i lawr strydoedd ochr hanesyddol, rhwng adeiladau ac ar hyd strydoedd cefn, yn rhan annatod a phwysig o gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn amrywio o'r pyrth bwaog y tu ôl i hen dafarnau a oedd, yn hanesyddol, yn arwain at stablau ac adeiladau allan, tuag at strydoedd byrrach adeiladau preswyl a masnachol, fel Stryd y Farchnad a Theras yr Abaty. Cynigia'r rhain syniad o'r datblygiadau preswyl llai a'r iardiau gwasanaeth y tu ôl i'r adeiladau mwy ffurfiol sy'n wynebu'r strydoedd.

Oherwydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, gellir anwybyddu ansawdd gweledol yr ardaloedd hyn, ond ni ddylid eu diystyru wrth ystyried arwyddocâd.




Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo

Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau

Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau

Mannau gwyrdd cadarnhaol / wedi'u tirlunio / coed

Toeau arwyddocaol

Y prif dirnod / adeiladau allweddol

Golygfeydd pwysig o'r dirwedd

Golygfeydd pwysig o'r stryd

Golygfeydd caeëdig

Golygfeydd terfynedig

Golygfeydd allwyredig

### 4.2 Prif Dirnodau ac Adeiladau Allweddol

Ceir 87 o adeiladau ac adeileddau rhestredig o fewn y dref yn Ardal Gadwraeth Llandeilo, sy'n dystiolaeth o ansawdd uchel ei phensaernïaeth, ynghyd â'r cysylltiadau a'r datblygiadau hanesyddol sy'n rhan hanfodol o'i chymeriad.

#### Adeiladau ac Adeileddau Rhestredig

*Castell Dinefwr*

Â hwnnw wedi'i restru fel ' Old Dynevor Castle' mae wedi'i restru'n Radd I ac wedi'i gydnabod fel heneb gofrestredig o bwys hanesyddol. Adeiladwyd y castell canoloesol yn y lle cyntaf gan y tywysogion Cymreig yn y 13eg ganrif, ac fe'i hail-fodelwyd gan Frenin Edward I gydag ychwanegiadau yn y 15fed Ganrif gan Syr Rhys ap Thomas. Wedi'i leoli ar y pwynt uchaf o fewn y dirwedd amgylchynol, mae'n hawlio golygfeydd panoramig o Afon Tywi y tu hwnt, er y caiff ei guddio o sawl golygfa gan y coetir helaeth sydd o'i gwmpas. Er hynny, mae'n nodwedd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, ac yn dirnod amlwg o fewn yr ardal ac wrth edrych yn ôl tuag at yr ardal.

*Plas Dinefwr*

Wedi'i enwi'n flaenorol fel Newton House, adeiladwyd y tŷ hwn, sydd wedi'i restru'n Radd II*, rhwng 1660-70 ar gyfer Syr Edward Rice, a thybir ei fod wedi cymryd lle tŷ Tuduraidd cynharach. Â hwnnw'n ddisgynnydd i'r Arglwydd Rhys, tywysog teyrnas Gymreig y Deheubarth, roedd y tŷ wedi aros o fewn y teulu Rhys (neu Rice) am dros dri chan mlynedd. Ychwanegwyd y talwyneb Gothig yn y 1850au. Mae'n dal i fod yn un o'r tai hanesyddol pwysicaf yn Ne Cymru ac yn gorwedd yng nghalon ystad helaeth Dinefwr.

*Rhif  21 Heol y Bont*

Tŷ sydd wedi'i restru'n radd II, a leolir ar lannau isaf Afon Tywi, islaw Parc Penlan, ac sy'n weladwy o Bont Llandeilo fel yr ydych yn croesi i mewn i Heol y Bont. Wedi'i adeiladu tua 1825, mewn arddull fila Duduraidd, mae'r talcennau, y corn simdde a'r terfyniadau Tuduraidd yn rhannau amlwg o'r nenlinell.







*Pont Llandeilo*

Wedi'i adeiladu ym 1848, yn ôl dyluniadau W Williams o Landeilo, i gymryd lle pont gynharach i lawr yr afon, ac a ddarlunnir ar blac efydd ar y canllaw gorllewinol. Yn ogystal â bod yn nodwedd allweddol ar yr afon, mae'n nodweddu'r porth i mewn i'r Ardal Gadwraeth, ac yn dal i fod yn brif echel i mewn i'r dref. Fe'i rhestrir yn Radd II.



*Eglwys Blwyf Sant Teilo*

Wedi'i rhestru'n Radd II ac yn un o'r tirnodau mwyaf arwyddocaol o fewn yr Ardal Gadwraeth, yn ogystal ag yn nodweddu'r fan o le tyfodd y dref ganoloesol. Gyda'r rhan fwyaf ohoni wedi'i hailadeiladu mewn arddull addurnedig o 1848-51, gan GG Scott, mae'n debygol fod y tŵr yn dyddio o'r 15fed Ganrif, o'r adeilad gwreiddiol. Hefyd, mae'r mynwentydd y safai'r eglwys yn eu plith yn ychwanegu cryn dipyn at olygfeydd a lleoliad yr adeiladau amgylchynol.



*'The Kings Head'*

Yn sefyll gyferbyn â'r eglwys yng nghyffordd Heol-y-Bont a Heol-y-Banc, mae'r dafarn ffug Duduraidd, sydd wedi'i rhestru'n Radd II ac sy'n deillio o'r 18fed Ganrif, yn nodedig am ei harddull yn ogystal â'i chyfraniad at leoliad Eglwys Sant Teilo, sy'n creu cyffordd gadarnhaol yn lle mae sawl stryd yn croesi ar draws ei gilydd.



*'Prospect House'*

Mae gan y tŷ hwn, gyda siop gyffiniol, sydd wedi'i restru'n Radd II, wedd grom unigryw, sy'n nodweddu'r gyffordd rhwng Heol Newydd, Heol yr Eglwys a Stryd Rhosmaen. Fel adeilad trillawr, mae o hefyd yn un llawr yn uwch na'r adeiladau cyfagos, sy'n ychwanegu at y cryfder a ddarparir ganddo i'r porth hwn i'r Ardal Gadwraeth.



*Capel Methodist Calfinaidd Salem*

Adeilad cerrig sylweddol a restrir yn Radd II gyda gwaith cerrig nadd, wedi'i leoli o fewn ei erddi ei hun ar Heol Newydd. Mae ei uchder, y rheiliau at ymyl y stryd, y manylion a'i ddeunyddiau'n ei wneud yn dirnod amlwg ar y stryd, gyda'i ffryntiad talcennog yn weladwy ar hyd Heol Newydd.



*Yr Hen Farchnad Fwyd*

Â hithau'n cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd, felly ni ellid ymgymryd ag asesiad llawn, mae'n dal i fod yn adeilad cornel sylweddol, sy'n nodweddu'r porth i'r Ardal Gadwraeth ac yn creu grŵp arwyddocaol ochr yn ochr â'r hen ysgol genedlaethol a'r ysgoldy gyferbyn. Wedi'i hadeiladu ym 1838, yn flaenorol, bu'r adeilad yn farchnad dan do ar gyfer bwyd lleol. Fe'i defnyddiwyd yn ddiweddarach fel gorsaf dân, ac yna fel ffowndri. Mae'n cael ei ailddatblygu ar hyn o bryd fel man i gynnal digwyddiadau, ynghyd â neuadd farchnad a bwyty.



*Yr Hen Ysgol Genedlaethol*

Wedi'i ddylunio gan WM Teulon ar gyfer yr Arglwydd Dynevor, mewn arddull Gothig, mae'r adeilad rhestredig Gradd II hwn bellach yn dŷ preifat. Gyda phob gwedd yn weladwy, a'r prif lwybr i Barc Penlan y tu ôl iddo, mae ei dalcennau, ei do a'r tŵr yn weladwy iawn o fewn y strydlun, ac yn fwy felly oherwydd ei fod wedi'i leoli gam i fyny o ymyl y stryd.



*Yr Hen Ysgoldy*

Â hwnnw o bosibl yn rhagflaenu'r ysgol cyn ei adeiladu, adeiladwyd y tŷ, sydd wedi'i restru'n Radd II, tua 1840, mewn gwaith rwbel, gyda bae canolog â ffrâm bren, sy'n nodedig ac yn darparu ychwanegiad unigryw a llawn cymeriad i'r stryd. Ochr yn ochr â'r ysgol a'r hen farchnad, mae hyn yn creu grŵp arwyddocaol yn y porth hwn i mewn i'r Ardal Gadwraeth.



*'Cambrian House'*

Tŷ, sydd wedi'i restru'n Radd II, sy'n deillio o'r 18$^{\text{fed}}$ Ganrif, ond a ail-fodelwyd yn y 19$^{\text{eg}}$ Ganrif, gyda blaen siop o ansawdd da o'r 19$^{\text{eg}}$ Ganrif ag iddo 3 bae. Â hwnnw'n dal i gadw llawer o'i adeiladwaith gwreiddiol, mae'n terfynu'r golygfeydd o Stryd Siôr, yn ogystal ag yn adeilad sylweddol o ran Stryd Caerfyrddin.



*Rhif 1 Stryd Siôr – 'Abbeyfield'*

Wedi'i adeiladu fel y 'George Inn' yn y 18fed Ganrif, daeth yn ficerdy yn y 19eg Ganrif, a bu'n lletya milwyr yn ystod Terfysg Beca yng nghanol y 19eg Ganrif. Fel adeilad Gradd II sylweddol, mae'n sefyll yn y troad i Stryd Siôr, ac yn terfynu golygfeydd o George Hill gyda'i doeau dormer trionglog. Hefyd, mae'r llawr caled agored mawr i'r gogledd yn caniatáu gweld y wedd ogleddol o Stryd Siôr ac, fel y cyfryw, mae'n rhan sylweddol o gymeriad y stryd hon.



*Banc y Midland*

Yn sefyll yng nghyffordd 5 ffordd, ac er ei fod yn eithaf cryno a chanddo un llawr, mae'n adeilad unigryw. Fe'i hadeiladwyd yn y 1920au, mewn arddull banc clasurol, â hwnnw o waith cerrig nadd gyda llawr gwaelod rwstig, parapet colofnresog addurniadol, a mynedfa siamffrog yn wynebu Eglwys Sant Teilo. Mae hwn yn adeilad addurniadol ac unigryw iawn oherwydd ei ddeunyddiau a'i fanylion, yn ogystal â'i leoliad ar gyffordd allweddol.



*Rhif 5 Stryd y Brenin – 'Peppercorn'*

Rhan o deras hardd ar Stryd y Brenin ond yn amlwg oherwydd ei ffenestri bae a'i flaen siop, sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif. Mae'n debyg mai tŷ tref ydoedd, o ddechrau'r 18fed Ganrif, a oedd yn wynebu Eglwys Sant Teilo, ond a ail-fodelwyd ar ddiwedd y 18fed Ganrif, ac a restrwyd yn Radd II.



*Rhif 4 Stryd y Brenin*

Hen dŷ tref 3 llawr o'r $19^{eg}$ Ganrif, sydd bellach yn siop ac wedi'i restru'n Radd II. Mae ei 3 llawr a'i do erchwyn yn ei wneud yn wahanol i adeiladau cyfagos, ond mae'n cyd-fynd yn dda â'i amgylchedd ac yn creu grŵp arwyddocaol gyda'r adeiladau eraill yn Stryd y Brenin, yn ogystal ag yn creu cefndir cadarnhaol i'r fynwent y mae'n ei hwynebu.



*Gwesty'r 'Cawdor Arms Hotel'*

Adeilad sylweddol i fyny at Stryd Rhosmaen, gyda ffenestri bae deulawr, amlonglog, ar y baeau allanol a balconi'r llawr cyntaf, sy'n fwy amlwg fyth oherwydd y distempar lliw coch, llachar. Ni chynhwyswyd yr estyniad crenelog i'r gogledd o fewn ei restriad Gradd II, oherwydd yr ystyriwyd ei fod yn ychwanegiad sy'n anghydnaws â nodweddion yr adeilad gwreiddiol.



*120 Stryd Rhosmaen*

Wedi'i restru'n Radd II ac yn cael ei ddefnyddio gan 'NFU Mutual' ar hyn o bryd. Fe'i lleolir yn ôl o ymyl y stryd y tu ôl i gwrt blaen â rheiliau. Adeiladwyd yr adeilad 2 lawr hwn o waith maen tua 1870. Mae ei bortico clasurol, ei ddeunyddiau, y meini clo o amgylch y ffenestri, y bondoeau danheddog a'r conglfeini'n ei wneud yn nodwedd amlwg o'r stryd.



*Rhif 115 Stryd Rhosmaen, gan gynnwys twnnel*

Wedi'i restru'n Radd II am ei werth fel rhan o grŵp o fewn y stryd, mae'r adeilad hwn, sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif, yn amlwg am ei ffenestri oriel ar y llawr cyntaf, ynghyd â'i flaen siop o ansawdd da, sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif, a thwnnel sy'n arwain tua'r cefn.



*Gwesty'r 'Angel Hotel'*

Adeilad sy'n dyddio o ddechrau'r 19eg Ganrif, a ailfodelwyd ar ddiwedd y 19eg Ganrif, wedi'i orffennu â phlastr garw a distempar a'i restru'n Radd II. Mae'n adeilad nodedig ar y stryd am sawl rheswm, gan gynnwys ei doeau talcennog ag estyll tywydd addurnol, ynghyd â ffenestr oriel ar y llawr cyntaf.




*'National Westminster Bank'*

Banc a adeiladwyd yn bwrpasol ar ddechrau'r 20fed Ganrif, yn arddull y Dadeni, gan FCR Palmer, a adeiladwyd mewn brics coch, gyda gwaith cerrig nadd, sy'n un o sawl adeilad brics coch o bwys a geir o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae ei barapet colofnresog a'i gerfiadau cerrig yn nodwedd unigryw hefyd. Mae ei leoliad yng nghyffordd Adeiladau'r Banc a Stryd Rhosmaen yn golygu ei fod yn ymddangos yn fwy o ran maint ac yn creu adeilad cornel nodedig.



*Y Bandstand*

Adeiladwyd y bandstand o fewn Parc Penlan ar ddechrau'r 20fed Ganrif, ar y pwynt uchaf o fewn y dref, a hwn yw'r unig adeiledd o fewn y parc. Fel y cyfryw, mae'n dirnod amlwg o fewn y dirwedd, yn gyrchfan, ac yn rhywle y gellir mynd iddo i weld y dirwedd y tu hwnt. Fe'i rhestrwyd yn Radd II.



**Adeiladau ac adeileddau o bwys, nad ydynt yn rhestredig**

Ni chafodd yr adeiladau a ganlyn eu rhestru'n statudol ond maent yn atgyfnerthu cymeriad yr ardal, yn darparu tirnod pwysig neu'n rhan o dreftadaeth Llandeilo oherwydd eu harwyddocâd o safbwynt pensaernïol, hanesyddol neu archaeolegol, a chydnabyddir eu bod yn asedau unigryw o ran treftadaeth. Fel y cyfryw, cynigiwn y dylid eu cynnwys ar restr leol o adeiladau o werth. Ni fyddai hyn yn rhoi gwarchodaeth statudol i adeilad, ac ni fyddai angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwneud gwaith ar adeilad a restrir yn lleol, ond byddai'r diddordeb arbennig yn yr adeilad yn ystyriaeth berthnasol yn y broses geisiadau cynllunio.

*'Gerwyns Fruit and Veg'*

Fe'i lleolir ar Heol y Bont, a hwn yw'r adeiledd cyntaf ar ochr ddwyreiniol y stryd wrth groesi pont Llandeilo. Mae'n bosibl y defnyddiwyd adeilad allan cynharach o'r 19eg Ganrif, ond gyda ffryntiad sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg Ganrif neu ddechrau'r 20fed Ganrif, sy'n dirnod amlwg ar y stryd, a leolir wrth borth i graidd y dref.




*Capel Bedyddwyr Ebeneser*

Capel mewn arddull Romanésg Eidalaidd, wedi'i adeiladu ym 1829 a'i ailadeiladu ym 1877 gan George Morgan, gyda manylion o waith cerrig nadd a ffenestr rhosyn o wydr lliw. Mae ei dalcen uchel yn weladwy o fewn y nenlinell fel yr ydych yn mynd trwy Heol Cilgant, ac mae ei ddeunyddiau a'i fanylion yn elfennau amlwg o fewn y st ryd.



*Rhifau 21 a 22 Lôn-y-Llan*

Pâr o dai, y mae'n debygol eu bod yn dyddio o'r 19eg Ganrif, sy'n nodedig am eu talcennau addurnol gydag estyll tywydd addurniadol, ynghyd â'i ganopïau, sy'n nodwedd amlwg ymhlith y tai mwy unffurf o fewn y teras, sy'n dyddio o'r 19$^{eg}$ Ganrif.



*Capel Newydd*

Capel Annibynwyr Cymreig a adeiladwyd rhwng 1901-2 mewn arddull Gothig, yn ôl dyluniad Henry Herbert o Rydaman. Wedi'i adeiladu mewn tywodfaen gyda siafftiau tal o waith cerrig nadd, fe'i lleolir o fewn ei erddi ei hun, gyda rheiliau addurnol, pileri cerrig, ynghyd â lantern i'r stryd. Mae ei faint, ei arddull pensaernïol a'r modd y mae'n sefyll yn ôl o'r ffordd yn creu nodwedd amlwg o fewn y stryd.



*Neuadd Ddinesig Jiwbilî Fictoria*

Fe'i hadeiladwyd ym 1887 i ddathlu Jiwbilî Aur y Frenhines Fictoria, ac fe'i defnyddiwyd yn y lle cyntaf fel Neuadd Ymarfer y Fyddin Diriogaethol. Yn y 1970au, fe'i cymerwyd drosodd gan y cyngor lleol, ac fe'i rhedir gan Ymddiriedolwyr Neuadd Ddinesig Llandeilo fel man cymunedol. Mae ei natur dal, ei dalcen a'i arysgrifiad addurnol, yn ei wneud yn nodwedd amlwg o fewn y stryd.



*Archfarchnad 'CKs', 77 Stryd Rhosmaen*

Wedi'i adeiladu ar ddechrau'r 20fed Ganrif i gymryd lle hen efail, mae o bellach yn archfarchnad sy'n eistedd ar gyffordd allweddol rhwng Stryd Rhosmaen, Heol Cilgant a Heol Newydd, sy'n creu tirnod cryf yn y fynedfa hon i'r Ardal Gadwraeth. Mae ei arddull yn eithaf unigryw, a gallai atgyweirio ei dalwyneb a chyflwyno ffenestri a drysau mwy cydnaws gynyddu ei statws ymhellach.



*Canolfan Lles, 5 Heol Newydd*

Fila sengl fawr a leolir y tu ôl i reiliau addurnol at y stryd. Mae'n arbennig o nodedig am ei ffenestri bae bargodol, gyda thoeau llechi a manylion addurnol.

Ychwanegwyd dormer ar ryw adeg, sydd wedi amharu rhywfaint ar ei mesuriadau a'i chymeriad gwreiddiol.



*15-19 Heol Newydd*

Rhes o dri thŷ gyda 2 flaen siop o ansawdd da ar lefel y llawr gwaelod. Wedi'u hadeiladu mewn brics melyn â manylion o ran brics coch a du, gyda ffenestri bargodol ar y llawr cyntaf, sydd, gyda'i gilydd, yn creu ychwanegiad llawn cymeriad i'r stryd.



*Llys Morfa*

Pâr o dai arbennig o fanwl ac unigryw, gydag addurniadau yn ffurf band o frics coch a melyn â manylion terracotta. Yn ychwanegu at ei gymeriad ymhellach y mae'r baeau bargodol, baeau ar y llawr cyntaf, ynghyd â thalcennau â fframiau pren gyda therfyniadau addurnol, sy'n ei wneud yn uwch ac yn ychwanegu at ei statws o fewn y treflun.



*2 Stryd Siôr*

Tŷ sengl hardd mewn brics coch gyda manylion brics melyn a therracotta. Er nad oes ganddo ond dau lawr, mae'n uwch nag ymyl y stryd, sy'n sicrhau nad yw'n cael ei fwrw i'r cysgod gan yr adeilad uwch y drws nesaf. Gallai rheiliau i'r wal o waith rwbel helpu i'w integreiddio'n well ar y stryd.



*Neuadd Goffa Davies*

Wedi'i hadeiladu ym 1874 fel ysgol Sul, gyda gwasanaethau eglwys yn cychwyn ym 1882. O fesuriadau cyffredin ac yn ymddangos yn wag. Mae ei deunyddiau, ei thalcen a'i meindwr yn ei gwneud yn nodwedd amlycach o fewn y stryd, ac mae'n dirnod ymhlith y toeau wrth edrych o gyfeiriad y fynwent.



*9 Stryd y Brenin*

Adeilad mawr ar gornel George Hill a Stryd y Brenin, sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif. Ceir yno flaen siop i Stryd y Brenin, ynghyd â mynedfa gilfachog siamffrog i George Hill, sy'n darparu mynediad i'r tŷ y tu cefn iddo. Mae ei leoliad yn ei wneud yn fwy amlwg, a gyda Neuadd Goffa Davies y drws nesaf, mae'n creu mynedfa gref i George Hill.



*Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin*

Adeiladwyd Neuadd y Sir ym 1802, yn ôl dyluniadau gan Thomas Humphreys o Gaerfyrddin, fel neuadd ar gyfer Llysoedd Chwarter uwchben marchnad agored islaw.
Fe gafodd y wedd flaen ei hailfodelu gan David Jenkins ym 1901, gyda llawr gwaelod rwstig, portsh bargodol a cholofnau cyswllt.
Ar ddechrau'r 20fed Ganrif, daeth i fod yn brif swyddfa Heddlu Sir Gaerfyrddin, gyda llys ar y llawr cyntaf, ac mae bellach yn brif swyddfa Menter Bro Dinefwr. Er ei fod wedi'i leoli yn ôl o ymyl y stryd, mae dal i fod yn amlwg oherwydd ei fás ynghyd â manylion yr adeilad.



*9-10 Teras yr Abaty*

Gyda banc y 'National Westminster' maent yn ffurfio pâr amlwg o adeiladau banc o waith cerrig nadd gyferbyn â chyffordd Heol y Bont a Stryd Rhosmaen. Ochr yn ochr â'i fanylion cerfiedig cymhleth, mae'r cwpola cromennog yn dirnod amlwg ymhlith y toeau ac mae'n adeilad llawn cymeriad ar gornel y gyffordd hon.



*Yr Hen Swyddfa Bost*

Wedi'i adeiladu ym 1897 fel swyddfa bost Llandeilo, mae'r adeilad cornel amlwg hwn, o frics coch a melyn, gyda'i fanylion terracotta, wedi'i leoli yng nghyffordd Stryd Rhosmaen ac Adeiladau'r Banc. Mae ganddo dalcennau siecrog i'r ddwy stryd, sy'n ei wneud yn uwch ac yn fwy amlwg.



*Rhifau 42-44 Stryd Rhosmaen*

Adeilad pâr 3 llawr ar Stryd Rhosmaen, y ddau ohonynt a chanddynt flaen siop o ansawdd da, sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif. Mae eu huchder, a'r manylion deimwnt unigryw o amgylch eu ffenestri, yn eu gwneud yn nodwedd amlwg ar y stryd.




*Rhif 2 Teras yr Abaty*

Adeiladwyd Teras yr Abaty tua 1840 gyferbyn â mynwent Eglwys Sant Teilo, fel cyfres ffasiynol o dai tref mawr. Y pensaer David Jenkins oedd perchennog Rhif 2, tua'r flwyddyn 1900, a gwnaeth y wedd flaen yn fwy amlwg trwy ychwanegu parapet gydag yrnau coch terracotta.
Mae o mewn cyflwr adfeiliedig ar hyn o bryd ac mewn perygl, ond mae'n dal i gadw cryn dipyn o'i adeiladwaith gwreiddiol.



*Lodge House, Parc Dinefwr*

Adeilad Fictoraidd sengl o waith maen gyda thalcennau, ffenestri bae a tho teils coch sy'n nodweddu'r fynedfa i'r ystad, ac yn creu man cyrraedd cryf. Mae'r simneiau hefyd yn elfen nodedig o fewn y nenlinell.



**Blaenau siopau o bwys**

Fel prif graidd manwerthu'r dref, mae blaenau siopau'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r Ardal Gadwraeth, ac yn cynrychioli cyfnod pwysig o ran datblygiad yn y 18fe a'r 19eg Ganrif, pan welodd Llandeilo dwf aruthrol. Mae enghreifftiau o flaenau siopau hanesyddol sy'n goroesi yn rhai sydd o gryn bwys, a dylid eu gwarchod. Gellir tybio bod rhagor o adeiladwaith hanesyddol wedi'i orchuddio gan ffasgiâu mawr, neu eu bod wedi'u gorchuddio gan wynebau newydd gan ddefnyddio deunyddiau cyfoes. Dylid ystyried hefyd bod rhannau o adeiladau lle mae rhywfaint o adeiladwaith yn dal i fod yn werthfawr, ac y dylid annog camau i adfer elfennau sydd wedi'u colli. Nodir bod y blaenau siopau a ganlyn yn rhai lle mae eu blaen siop, sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif, wedi goroesi yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol. Fel y cyfryw, maent yn gwneud ychwanegiad llawn cymeriad i'r strydlun. Cynhwysывyd rhai blaenau siopau sy'n dyddio o ddechrau'r 20fed  Ganrif hefyd, am eu hansawdd o safbwynt pensaernïol.

The Kings Head
25 Heol y Bont
6 Stryd y Brenin
7 Stryd y Brenin
9 Stryd y Brenin
1 Stryd Caerfyrddin
4 Stryd Caerfyrddin
5 Stryd Caerfyrddin
10 Stryd Caerfyrddin
18 Stryd Caerfyrddin
20 Stryd Caerfyrddin (sydd bellach yn dŷ)
22 Stryd Caerfyrddin
23 Stryd Caerfyrddin
27 Stryd Caerfyrddin
9-10 Teras yr Abaty
42 Stryd Rhosmaen
44 Stryd Rhosmaen
50 Stryd Rhosmaen
60 Stryd Rhosmaen
64 Stryd Rhosmaen
66 Stryd Rhosmaen
83 Stryd Rhosmaen
87 Stryd Rhosmaen
99 Stryd Rhosmaen
101 Stryd Rhosmaen
107 Stryd Rhosmaen
115 Stryd Rhosmaen
123 Stryd Rhosmaen
127 Stryd Rhosmaen
129 Stryd Rhosmaen
1 Heol Newydd
15 Heol Newydd
18 Heol Newydd



5 Stryd Caerfyrddin



5 Stryd y Brenin



18 Heol Newydd



64 Stryd Rhosmaen

### 4.3 Mannau Gwyrdd a Naturiol Pwysig

Ceir cyfres o fannau gwyrdd ledled yr Ardal Gadwraeth sy'n torri ar ddwysedd uchel yr adeiladau o fewn y dref. O ran Ystad Dinefwr a Pharc Penlan, maent yn fannau unigryw ynddynt eu hunain. Mae nifer o fannau gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth sy'n ychwanegu'n fawr at ei chymeriad ac yn darparu seibiannau pwysig i ddwysedd uchel yr adeiladau ar y stryd a lleoedd i ymlacio, myfyrio a gwerthfawrogi'r amgylchfyd. Maent hefyd yn cynnig buddion o ran llesiant i'r rheini sy'n eu defnyddio ac fel y cyfryw yn cyflwyno buddion diwylliannol a chymunedol hefyd. Ymhlith y nodweddion a'r mannau allweddol y mae:

- Ystad Dinefwr, gan gynnwys Coed y Castell
- Parc Penlan
- Coed y Castell
- Mynwent Eglwys Sant Teilo
- Safle Capel Ebeneser
- Safle Capel Newydd
- Gerddi blaen, yn enwedig ar Heol Cilgant a Heol Newydd

Dangosir mannau gwyrdd ar y map a ganlyn.




Gerddi blaen ar Heol Cilgant



Parc Penlan



Mynwent Eglwys Sant Teilo




Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo

Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau

Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau

Mannau gwyrdd

Parciau

Gerddi preifat/lled-breifat

Coed


Grŵp o goed

Gorchymyn Cadw Coed (TPO)

# 5.0 Cymeriad a Golwg

Mae'r adran hon yn disgrifio cymeriad a golwg yr ardal fel y mae'n bodoli ar adeg yr astudiaeth hon. Mae gan yr Ardal Gadwraeth bedair rhan wahanol: ardal ddeheuol canol y dref sy'n cynnwys Eglwys Sant Teilo, rhan ogleddol canol y dref y mae Heol Newydd a Heol Cilgant, Parc Penlan ac Ystad Dinefwr yn ffinio arni.

Nodweddir Parc Penlan ac Ystad Dinefwr gan rywfaint o adeiladau ac adeileddau o fewn safleoedd wedi'u tirweddu ac, fel y cyfryw, fe'u nodweddir yn bennaf gan fannau gwyrdd. O fewn y dref, ceir cryn gysondeb o ran dyluniad pensaernïol, ond mae amryw batrymau'r cynlluniau stryd rhwng yr ardaloedd gogleddol a deheuol yn newid y modd mae pobl yn symud trwodd ac yn ystyried yr ardaloedd hyn ac, fel y cyfryw, maent yn creu nodweddion unigryw. Cynigir felly bod Ystad Dinefwr yn dod yn Ardal Gadwraeth ynddi'i hun, ac y caiff tair ardal gymeriad eu diffinio, sy'n ymateb i'r nodweddion unigryw hyn, gan helpu i warchod, rheoli a gwella'r gwahaniaethau yn ogystal â'r tebygrwydd rhyngddynt.




Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo

Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau

Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau

1 Ardal Gymeriad Rhan Uchaf y Dref

2 Ardal Gymeriad Teilo Sant

3 Ardal Gymeriad Parc Penlan

4 Ardal Gymeriad Ystad Dinefwr

**5.1 Nodweddion y Treflun**

*Ardal Gymeriad Sant Teilo*

Yn wahanol i natur fwy llinellog rhwydwaith strydoedd y rhan uchaf o ganol y dref, mae'r ardal hon o'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys y strydoedd byrrach neu fwy troellog o gwmpas yr eglwys a'r fynwent, gyda'r farchnad flaenorol yn un o'r ardaloedd trefol mwyaf o fewn yr Ardal Gadwraeth. Yr eithriad i hyn yw Heol y Bont, sy'n torri trwy'r fynwent ac yn darparu mynediad dros yr afon dros Bont Llandeilo. Mae'r fynwent a'r farchnad yn elfennau amlwg o fewn yr Ardal Gadwraeth ac yn darparu cyrchfannau a chyfleoedd i bobl gael seibiant i ystyried eu hamgylchedd, ond gyda'r eglwys yn dirnod y gellir ei gweld o bob cyfeiriad bron. Yn lle mae terasau yn eu hwynebu, mae'r fynwent yn ychwanegu at eu lleoliad yn sylweddol, gyda golygfeydd dros y fynwent tua'r dirwedd y tu hwnt. O ran addasiadau a fyddai efallai'n amharu ar y nodwedd hon, dylid eu hosgoi. Yn wahanol i ardal gymeriad rhan uchaf y dref, mae'r dirwedd yn nodwedd bwysig, o ran y coed o fewn y fynwent, ond hefyd y golygfeydd ehangach i'r pellter.

Hefyd, mae'r cynllun strydoedd hwn yn creu golygfeydd a chyffyrdd mwy caeedig. Fel y cyfryw, caiff golygfeydd eu diffinio'n aml gan yr adeiladau ar bennau strydoedd. Yr eithriad i hyn yw Heol y Bont, sydd, fel ffordd linellog, yn caniatáu i chi weld gwedd y stryd yn ei chyfanrwydd. Oherwydd hyn, fe gewch ymdeimlad gwahanol bob amser, o fod mewn rhan gaeedig ac wedyn agored o'r ardal, sy'n rhan o swyn yr ardal.

Caiff yr amrywiaeth hon ei chynnal gan y gwahaniaethau o ran arddulliau adeiladu, toeau, ynghyd â pherthynas adeiladau â'i gilydd a llinell strydoedd. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â Lôn-y-Llan a Heol y Bont yn lle mae'r arddulliau'n fwy cyson, a cheir terasau byrrach Teras yr Abaty a Heol-y-Banc a gaiff eu hamgyffred fel cyfanrwydd. Fel y cyfryw, mae angen i addasiadau a datblygiadau ystyried eu cyd-destun uniongyrchol, yn ogystal â'r effaith ar nodweddion ehangach yr ardal.

Mae Pont Llandeilo'n darparu'r prif borth i mewn i'r Ardal Gadwraeth o gyfeiriad y de, gyda golygfeydd ar hyd Afon Tywi a thuag at yr eglwys a Pharc Penlan, sy'n darparu argraff llawn cymeriad a chadarnhaol tuag at y dref. Mae nifer o strydoedd ochr o Heol y Cei yn darparu mynediad i'r dirwedd amgylchynol, ond mae cyflwyno datblygiadau cyfoes wedi amharu ar rai o'r golygfeydd hyn, er enghraifft, y tai a adeiladwyd ar ddiwedd yr 20fed Ganrif ar waelod Heol y Cei. Mae ymyl dwyreiniol Heol y Bont heb ei ddatblygu ar hyn o bryd, sy'n creu newid graddol o'r dirwedd i ganol y dref, y mae lefel y datblygu'n ddwysach yno. Os caiff adeiladau eu cyflwyno yma fyth,



Stryd y Farchnad i'r gogledd



Heol y Bont i gyfeiriad y de, yn torri trwy'r fynwent



Y fynedfa ddeuehol i'r Ardal Gadwraeth, i gyfeiriad Heol y Bont

bydd angen ystyried eu lleoliad, eu más a'u huchder yn ofalus iawn, er mwyn cynnal yr ansawdd hwn a'r golygfeydd tuag at allan.

Er bod nodweddion y rhan helaeth o'r ardal yn gadarnhaol, caiff traffig effaith barhaus a negyddol ar y modd yr ydych yn symud trwy'r ardal ac yn ei phrofi. Hefyd, mae parcio ar y stryd wedi effeithio Lôn-y-Llan a Stryd y Brenin. Byddai lleihau traffig trwy wyro traffig i ffwrdd o'r dref o fudd aruthrol i'r Ardal Gadwraeth. Byddai symud ceir i Stryd y Brenin, naill ai'n barhaol, neu ar gyfer digwyddiadau, yn rhoi cyfle i werthfawrogi defnydd blaenorol y lleoliad hwn unwaith eto.

*Ardal Gymeriad Rhan Uchaf y Dref*

Ar y cyfan, mae'r ardal hon yn cynnwys tair prif ffordd: Heol Cilgant, Heol Newydd, a Stryd Rhosmaen, y mae gan y tri ohonynt eu nodweddion unigryw eu hunain. Mae'r topograffi'n fwy gwastad na'r rhan isaf o'r dref hefyd, sy'n creu ymdeimlad caeedig ar y llwybrau hyn, ac yn fwy felly yn Rhosmaen a Heol Newydd oherwydd natur drefol, ddwysach yr adeiladau a'r golygfeydd syth a phell. Mae cipolygon o olygfeydd o'r dirwedd rhwng yr adeiladau ac wrth gyffyrdd yn torri ar y symudiad hwn ac yn cynnig cyfleoedd i gael seibiant. Heol Cilgant yw'r eithriad clir i hyn, gyda'r ochr dde-ddwyreiniol yn agored i'r dirwedd y tu hwnt, ynghyd â nifer uchel o adeiladau sengl, sy'n cynyddu'r cipolygon o olygfeydd i mewn ac allan o'r ardal a thrwy'r ardal.

Mae'r ardal hon yn cynnwys dau borth allweddol i'r Ardal Gadwraeth, ar y ddau ben i Heol Newydd. Mae Heol Caerfyrddin yn llawn cymeriad, gyda'r hen farchnad fwyd a'r ysgol yn adeiladau arwyddocaol ac amlwg. Gellid gwella'r fynedfa hon ymhellach trwy gyflwyno elfennau o ansawdd uchel o ran tirweddu caled neu feddal, ynghyd â dodrefn tir y cyhoedd ar gyfer y palmantau lletach ar y naill ochr a'r llall. Byddai hyn hefyd yn helpu i wella lleoliad tafarn Yr Hen Vic a chanddo lecyn mawr o lain caled at y ffordd, ynghyd ag estyniad cyfoes sy'n eithaf amlwg ar y stryd oherwydd ei natur agored. Mae cyffordd Heol Newydd a Heol Caerfyrddin ychydig yn wannach oherwydd y maes parcio agored ar un ochr, ynghyd â chyflwr gwaelach yr archfarchnad a'r wal derfyn, ynghyd â chyflwyno dulliau trin ffiniau cyfoes ar y pen gogleddol o Stryd Rhosmaen. Ar bob pen i Stryd Rhosmaen ceir adeiladau y meddylir amdanynt fel adeiladau cornel, sy'n creu mynedfeydd cadarnhaol i'r ffordd drwodd hon. Fodd bynnag, mae'r datblygiad cyfoes ar ochr ddwyreiniol y pen gogleddol wedi amharu ar y nodwedd hon.

Mae datblygiadau cyfoes ac addasiadau wedi effeithio Heol Newydd hefyd, gyda sawl datblygiad yn anghydnaws â'i amgylchedd, ac mae'n amlwg eu bod yn mynd yn groes i arddull cymharol gyson y rhan helaeth o'r ffordd.

Mae gan bob stryd ei chymeriad unigryw ei hun a nodir yn fanylach o fewn yr adran hon. Er, i grynhoi, Heol Newydd yw'r mwyaf cyson ohonynt o ran arddull, gyda therasau hirach o dai o'r 19eg Ganrif. Yn Heol Cilgant, ceir tai sengl mwy, y tybir eu bod yn cynnal preswylwyr cyfoethocach y dref ar ddiwedd y 19eg a dechrau'r 20fed Ganrif. Ceir llai o adeiladau yn Stryd Caerfyrddin a Stryd Siôr, ond mae bron pob un ohonynt yn dirnodau unigryw a nodedig. Stryd Rhosmaen, fel stryd sydd â manwerthu'n ganolbwynt iddi, yw'r un fwyaf amrywiol o safbwynt arddull pensaernïol, gyda strydoedd cefn, mynedfeydd cilfachog, arwyddion crog, canopïau, a nifer o ffenestri bae bargodol yn newid y golygfeydd yn barhaus, trwy'r



Yr olygfa i'r de ar hyd Stryd Rhosmaen



Y fynedfa i'r Ardal Gadwraeth yn Heol Newydd a Heol

ardal. Fel y cyfryw, teimlir mai hon yw'r ardal brysuraf o'r pedair ardal, oherwydd ei defnydd cyhoeddus a'i phensaernïaeth.

Wedi'u lleoli rhwng Stryd Rhosmaen, Stryd Caerfyrddin a Heol Newydd, ceir sawl datblygiad sydd wedi'u mewnlenwi o fewn gerddi cefn blaenorol. Mae llawer o'r rhain yn adeiladau cyfoes o safon waelach, ond a chanddynt rai terasau sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif ar 'North Bank', ynghyd ag Adeiladau'r Banc. Gan y lleolir y datblygiadau hyn ychydig yn ôl o ymyl y ffordd, nid ydynt o reidrwydd yn effeithio'r ardal, ac nid ydynt yn darparu modd o dorri drwodd a ddefnyddir gan ymwelwyr neu breswylwyr eraill. Fodd bynnag, gallai cyflwyno rhagor o adeiladau, â'r rheiny'n anghydnaws, amharu ar olygfeydd o'r prif ffyrdd, a dylid ystyried eu heffaith ar y golygfeydd hyn.

Y mewnosodiad cyfoes mwyaf fu'r maes parcio a leolir rhwng  Heol Cilgant a Stryd Rhosmaen. Er ei fod yn anghenraid cyfoes na ellir ei osgoi'n aml, mae hyn wedi annog datblygiadau hyd at ei ymylon, sydd o ansawdd waelach o ran eu perthynas â'r Ardal Gadwraeth ac, fel y cyfryw, nid ydynt yn darparu argraff gadarnhaol o'r Ardal Gadwraeth fel man cyrraedd.



Golygfeydd tuag at y dirwedd amgylchynol o Heol Cilgant

*Ardal Cymeriad Parc Penlan*

Mae'r parc yn gymharol bell o ganol dref, ac mae'n cynnig man agored mawr y tu allan i graidd dwysach canol y dref. Yr unig adeiledd oddi mewn iddo yw'r bandstand sy'n sefyll yn ei graidd ar y pwynt uchaf. Y golygfeydd tuag at allan i gyfeiriad y dirwedd y tu hwnt yw nodwedd ddiffiniol y parc, gyda golygfeydd yn ôl i mewn o'r dref wedi'u cuddio oherwydd Coed y Castell, sy'n gwneud iddo deimlo'n fwy ar wahân fyth. Ceir mynediad i'r parc trwy Stryd Caerfyrddin, ac mae giât fetel a wal derfyn sydd o ansawdd uchel yn darparu 'ymdeimlad o gyrraedd' cryf a theilwng.

*Ystad Dinefwr*

Mewn modd tebyg i'r parc, y dirwedd ac afon Tywi, sy'n diffinio ei ffiniau, yw nodweddion diffiniol yr ystad. Mae Plas Dinefwr yng nghalon yr ystad, oherwydd ei statws yn ogystal â chynllun y ffordd ddynesu, sy'n eich danfon yn naturiol i'r tŷ. O ran yr eglwys a'r castell, er yn adeileddau nodedig, maent yn fwy diarffordd, ac felly angen eu darganfod. Fferm y Plas sy'n cynnwys y crynhoad mwyaf o adeiladau o fewn yr ystad, sy'n cadw eu cysylltiadau amaethyddol. Nodweddir man cyrraedd y parc gan bileri cerrig addurnol, ynghyd â giatiau, marcwyr cerrig a choed sy'n eich annog i fynd i mewn i'r parc, ac sy'n cynnig ambell olygfa o'r tŷ fel yr ydych yn dilyn troadau'r ffyrdd. Mae hon yn nodwedd hyfryd sy'n eich cyfarch wrth gyrraedd, ac yn eich ysbrydoli i fod eisiau canfod mwy am yr hyn sydd o'ch cwmpas.


Y fynedfa i Barc Penlan


Yr olygfa i'r de o Barc Penlan


Fferm y Plas


Afon Tywi o Gastell Dinefwr

## 5.2 Deunyddiau adeiladu

Mae'r delweddau a'r rhestr a ganlyn yn rhoi enghreifftiau o'r deunyddiau a ddefnyddir o fewn yr Ardal Gadwraeth, sydd naill ai'n gwella neu'n gwarchod nodweddion yr ardal.

### Tref Llandeilo

*O ran adeiladau mwy sy'n dirnodau amlwg*

Rwbel

Gwaith maen ag wyneb carreg

Brics coch, melyn a du

Cerrig – manylion a gwaith cerrig nadd

Fframiau coed

Manylion Terracotta

Stwco ('mewn haenau neu heb haenau')

Copr ar feindyrau a chwpolau

*Deunyddiau cyffredin*

Rendrad wedi'i baentio

Plastr garw   Plastr

wedi'i liwio â distempar

Gwaith rwbel wedi'i baentio

Gwaith rwbel sydd heb ei baentio ar ochr adeiladau neu y tu ôl iddynt  Brics llwyd ar gyfer simneiau

Gorchuddion to llechen  Gwaith plwm

*Teils crib coch*

Gwaith coed wedi'i baentio Cafnau dŵr ac ati o haearn bwrw

Blaenau siopau pren

*Dulliau trin ffiniau*

Rwbel – 'mewn haenau neu heb haenau'

Gwaith haearn bwrw/haearn gyr

Pileri cerrig
























**Ystad Dinefwr**

*O ran adeiladau mwy sy'n dirnodau amlwg*

Gwaith maen ag wyneb carreg

Rwbel

Gwaith a manylion o gerrig nadd

*Deunyddiau cyffredin, gan gynnwys adeiladau amaethyddol*

Rwbel

Toeau llechi

Toeau teils

coch Gwaith

plwm Gwaith

coed

Cafnau dŵr ac ati a wnaed o haearn bwrw


*Dulliau trin ffiniau*


Cerrig rwbel wedi'u gosod




mewn haenau




Ffensys a giatiau coed

Ffensys a giatiau metel



### 5.3 Uchder adeiladau a'u perthynas â lleiniau yn Nhref Llandeilo

*Ardal Gymeriad Sant Teilo*

Yn nodweddiadol, yn Heol y Bont, Lôn-y-Llan, Stryd Siôr, Teras yr Abaty a Stryd Caerfyrddin, ceir adeiladau deulawr a thrillawr sydd yn aml yn nodweddu cyffyrdd i mewn i strydoedd cyfagos. Mae gan Stryd y Brenin fwy o amrywiaeth, gydag adeiladau deulawr a thrillawr, ond gydag adeiladau is a chanddynt dalcennau a thoeau dormer sy'n eu gwneud yn uwch, gan sicrhau nad ydynt yng nghysgod adeiladau cyfagos. Maent yn fwy amrywiol hefyd o ran lled baeau, sy'n amrywio o ddau i bum bae. Oherwydd yr amrywiaeth o ran manylion pensaernïol, mae hyn yn ychwanegu ymhellach at greu strydlun llawn cymeriad ynghyd â grŵp nodedig o adeiladau.

Mae gan Heol-y-Banc adeiladau trillawr, gyda'u lleoliad uwch a'u golygfeydd agored i gyfeiriad y dwyrain, dros y fynwent, yn cynyddu eu huchder a'u hamlygrwydd. Mae hen adeilad banc y Midland, Marchnad 'Gerwyn's Fruit and Veg' ac Eglwys Sant Teilo yn eithriadau nodedig, gan fod ganddynt un llawr. Ond mae pob un yn dal i gadw eu nodweddion unigol a'u statws o ganlyniad i'w manylion pensaernïol a'u lleoliad, â'r rheiny naill ai'n adeiladau sengl, neu wedi'u lleoli ar gyffyrdd allweddol. Mae gan bob adeilad o fewn yr ardal dri bae o ran lled, gyda rhai adeiladau â dau fae tua phen dwyreiniol Lôn-y-Llan.

Yr hyn a geir yn yr ardal yn bennaf yw cyfres o derasau amrywiol o ran hyd, o Heol-y-Bont a Lôn-y-Llan sydd wedi esblygu a thyfu, i'r terasau a ddyluniwyd yn Heol-y-Banc a Theras yr Abaty. Yr eithriadau i hyn yw'r ambell adeilad sengl domestig ar Stryd Siôr ynghyd ag Eglwys Sant Teilo. Lleolir y mwyafrif o'r rhain yn union ar ymyl y stryd, gyda rhai gerddi blaen at Lôn-y-Llan.



Heol-y-Banc



Teras yr Abaty i gyfeiriad y dwyrain



Lôn-y-Llan i gyfeiriad Heol y Bont

*Ardal Gymeriad Rhan Uchaf y Dref*

Yn nodweddiadol, adeiladau deulawr a thrillawr a geir yma, ond sy'n amrywio o ran lled baeau, eu perthynas ag ymyl y stryd, ynghyd â'r cysondeb rhwng bob stryd. Fel y cyfryw, mae'r sylwadau a ganlyn yn trafod bob stryd yn ei thro.

Yn Heol Cilgant ceir cyfres o derasau sengl, terasau pâr, ynghyd â rhai byrrach o adeiladau preswyl, y mae gan bob un ddau lawr, ynghyd â dau i dri bae, yn aml gyda thalcennau sy'n eu gwneud yn uwch ac yn fwy amlwg. Eithriadau nodedig i hyn yw estyniad domestig un llawr mawr, sy'n annodweddiadol oherwydd ei uchder a'i led, yn ogystal â Swyddfeydd y Cyngor a chanddynt fás sy'n amlwg yn fwy. Fe'u lleolir yn ôl o ymyl y stryd, sy'n eu gwneud yn wahanol. Mae gan bob adeilad wal derfyn isel sy'n golygu y ceir llinell barhaus o ran y golygfeydd o'r stryd. Yr eithriad arall i hyn yw Neuadd Ddinesig Fictoria, ond mae ei statws a'i hansawdd pensaernïol yn sicrhau nad yw'n tynnu oddi wrth yr ardal. Yn y gyffordd â Stryd Rhosmaen, ceir adeilad archfarchnad un llawr, sy'n gallu cynnal ei statws unwaith eto oherwydd ei arddull a'i fanylion. Mae wal derfyn fawr gyferbyn yn cadw ymyl caled y stryd, er y byddai ei atgyweirio yn fuddiol i'r gyffordd hon.

Ar y cyfan, mae Heol Newydd hefyd yn cynnwys adeiladau preswyl, yn nodweddiadol, adeiladau deulawr a chanddynt ddau fae, ynghyd ag amryw adeiladau nodedig sy'n fwy. Yn wahanol i'r adeiladau preswyl ar Heol Cilgant, mae'r rhain yn ffurfio terasau gyda bylchau o ganlyniad i strydoedd ochr, yn ogystal â nifer o lwybrau bwaog trwodd i adeiladau a leolir y tu ôl i'r ffordd. Lleolir bron bob adeilad y tu ôl i waliau terfyn isel. Mae nifer o ddatblygiadau mwy newydd yn amharu ar y rhythm hwn, oherwydd eu bod yn lletach, neu wedi'u lleoli'n union ar ymyl y stryd. Enghraifft o hyn yw cyflwyno blaen siop ar adeilad domestig blaenorol, sy'n estyn allan i'r palmant ac yn amharu ar wedd y stryd.

Yn Heol Caerfyrddin, ceir cryn amrywiaeth rhwng adeiladau deulawr a thrillawr amrywiol o ran uchder eu lloriau, ynghyd â rhai a chanddynt ddau i dri bae. Yn nodweddiadol, lleolir adeiladau uwch, neu'r rheiny sy'n fwy o ran más, ar gyffyrdd strydoedd, sy'n creu cyfres o gorneli cadarnhaol. Hefyd, mae cyfres o dalcennau, yn enwedig yn y pen gogleddol, yn ychwanegu hefyd at yr amrywiaeth o ran toeau. Ceir adeiladau teras a sengl i'r stryd, gyda'u dwysedd yn fwy tuag at Heol y Bont. Ceir amrywiaeth hefyd o ran perthynas yr adeiladau a'r llinell stryd, gyda'r mwyafrif ohonynt yn dod at ymyl y stryd ar ben deheuol y stryd, ond gyda rhai waliau terfyn isel. Mae hyn yn amrywio i gyfeiriad y gogledd rhwng llecyn uwch o balmant i fyny at yr hen ysgol a'r ysgoldy, wal derfyn isel gyda gerddi blaen, ynghyd â'r rheiny sy'n union ar y stryd.



Heol Caerfyrddin i'r dwyrain



Heol Cilgant i'r gorllewin, gyda Swyddfeydd y Cyngor i'r chwith

Adeiladau masnachol yn unig a geir yn Stryd Rhosmaen, ar wahân i un adeilad domestig sengl ar Heol Cilgant, sy'n amlwg yn wahanol o ran ei arddull a'i fanylion. Adeiladau deulawr i drillawr yw'r rhain, gyda lefel fwy gwastad y stryd yn caniatáu i'r talcennau fod yn fwy amlwg na'r rheiny mewn strydoedd eraill. Mae lled y baeau'n amrywio o ddau i bedwar bae, gyda chyfres o adeiladau tirnod mwy, ag iddynt statws oherwydd eu hansawdd pensaernïol, wedi'u gwasgaru ar hyd y stryd. Ceir hefyd nifer o byrth bwaog a strydoedd ochr, sy'n darparu bylchau yn y teras sydd fel arall yn gyson o ran natur.

Nodir Gwesty'r Cawdor Hotel am ei fás, gyda'i liw yn gwneud iddo edrych yn fwy o ran graddfa. Byddai defnyddio gwahanol liwiau i greu'r argraff bod yr adeilad yn llai, ond gan barhau i gadw ei ffin gyffredinol, yn helpu i leihau ei amlygrwydd. Lleolir pob adeilad yn union ar ymyl y stryd, ond mae gan y blaenau siopau traddodiadol fynedfeydd cilfachog sy'n creu strydlun llawn cymeriad, sy'n amrywio wrth i chi gerdded ar ei hyd. Mae hyn yn newid erbyn cyrraedd y pen gogleddol, gyda'r siopau wedi'u lleoli yn ôl o ymyl y stryd ar ran uwch o balmant. Mae hyn yn gwanhau'r argraff a geir wrth gyrraedd y stryd o'r pen hwn.

Gall cyflwyno ffiniau i'r stryd, sy'n dilyn llinell y stryd yn ei flaen, helpu i liniaru anesmwythder y nodwedd hon.



Heol Newydd i gyfeiriad y gorllewin



Mynedfa'r pen gogleddol i Stryd Rhosmaen

Ystad Dinefwr

Ar wahân i Blas Dinefwr, Castell Dinefwr ac Eglwys Llandyfeisant, sy'n adeiladau ac adeileddau unigryw o ran eu más, uchder eu lloriau a'r berthynas â'u hamgylchedd, mae pob un o'r nifer gymharol gyfyngedig o adeiladau eraill a geir yma'n rhai deulawr, gydag adeiladau gwasanaeth fel toiledau, yn rhai un llawr. Yn wahanol i Dref Llandeilo, y dirwedd yw nodwedd ddiffiniol yr ystad ac, fel y cyfryw, ar y cyfan, gwelir yr adeiladau fel adeileddau o fewn hyn. Mae eu perthynas â hyn yn amrywio, ond mae gan y mwyafrif ohonynt ardal sydd wedi'i dylunio a'i thirweddu o'u cwmpas, hyd at eu ffin uniongyrchol, yn aml gyda wal derfyn o'i hamgylch, cyn y dirwedd fwy agored y tu hwnt.



Bwthyn gwyliau Penparc



Plas Dinefwr



Toiledau a storfa ar y llwybr i'r castell

**5.4 Manylion nodweddiadol neu arwyddocaol yn Nhref Llandeilo**

*O ran adeiladau mwy, sy'n dirnodau amlwg*

Conglfeini/conglau amlwg

Lloriau gwaelod rwstig

Manylion cerrig cerfiedig

Colofnau cyswllt

Manylion o fric addurnol

Cornisiau danheddog

Parapetau uwch – plaen a gyda balwstradau

Meindyrau a chwpolau

Portshys bargodol ar golofnau

Pennau ffenestri bwaog

Gwydr lliw

Giatiau metelwaith addurnol, yn aml â lanternau

*Manylion cyson ledled y dref*

Adeiladau cornel – crwn a siamffrog
Talcennau – addurnol a phlaen yn aml gyda therfyniadau

Pyrth bwaog yn arwain at adeiladau cefn

Rendrad wedi'i baention lliwgar Ffasgiâu addurnol
Estyll tywydd addurnol

Teils crib addurnol



Toeau serth

Simneiau

Enwau adeiladau wedi'u cerfio a'u paentio

Bandiau carreg – plaen ac addurnol–carreg, pren a rendr

Ffenestri bae pren – oriel a deulawr

Ffenestri codi pren

Manylion amlwg o amgylch ffenestri

Drysau bwaog

Drysau pren panelog, yn aml gyda ffenestri linter uwchben

Canopïau drysau

Mynedfeydd cilfachog

Lloriau mosäig mewn mynedfeydd cilfachog

Blaenau siopau pren

Waliau o waith cerrig rwbel

Rheiliau a giatiau addurnol, yn aml ar waliau cerrig isel

Arwyddion crog



**Ystad Dinefwr**

*O ran adeiladau sy'n dirnodau amlwg*

Manylion o gerrig cerfiedig

Tyrrau

Toeau erchwyn

Conglfeini/conglau amlwg

Pennau bwaog a chrwm ar ffenestri Giatiau metel addurnol

*Manylion cyson ledled yr ystad*

Toeau serth   Simneiau

Toeau dormer

Ffenestri codi pren

Drysau coed â byrddau fertigol


Waliau terfyn o waith cerrig rwbel  Rheiliau metel

Ffensys coed























## 5.5 Tir y cyhoedd: wynebau, dodrefn stryd ac arwyddion

### Tref Llandeilo

Mae bron bob un o'r ffyrdd a'r palmantau trwy ganol y dref yn rhai tarmac, gyda slabiau â phroffil wrth y cyrbiau isel. Yr unig leoliadau sy'n wahanol yw George Hill a Stryd y Brenin, lle defnyddiwyd slabiau concrit ar gyfer palmantau. Mae'r palmant is at Heol y Bont yn dal i gynnwys rhywfaint o slabiau carreg, a dylid eu gwarchod fel yr unig enghreifftiau sy'n goroesi o fewn yr Ardal Gadwraeth. Defnyddiwyd slabiau cerrig hefyd yn yr iard y tu ôl i'r 'White Horse'. Fodd bynnag, maent yn amrywio o ran patrwm a lliwiau, ac felly'n anghydnaws o safbwynt hanesyddol, ac nid ydynt yn cyd-fynd â chymeriad y stryd tarmac a'r palmantau.

Gellir gyrru ar hyd bob stryd o fewn yr Ardal Gadwraeth, ar wahân i Heol-y-Banc a Stryd y Farchnad sy'n rhy gul i geir basio. Mae gan Heol-y-Banc wyneb tarmac â cherrig mân y mae ei gyflwr yn waelach, ac mae'n anodd cerdded arno. Oherwydd topograffi'r ardal, mae gan lawer o strydoedd fynedfeydd uwch, sy'n camu i fyny neu i lawr o ymyl y stryd, sy'n gwneud i'r strydoedd hyn ymddangos yn fwy serth. Mae hyn yn amlwg yn enwedig yn Stryd Caerfyrddin a Heol-y-Banc, ac maent yn nodwedd allweddol o wedd y stryd.

Mae traffig wedi cymryd drosodd yr Ardal Gadwraeth i raddau helaeth, ond, diolch i'r drefn, llwyddwyd i wrthsefyll y math o seilwaith sy'n cyd-fynd â hyn, fel arwyddion traffig, bolardiau a goleuadau traffig. Os oes cyfle, byddai symud yr arwyddion 'dim ffordd drwodd' i Lôn-y-Llan a Theras yr Abaty yn helpu i wella'r golygfeydd i mewn i'r strydoedd hyn.



Tarmac â cherrig mân wrth Adeiladau'r Banc



Yr hen farchnad yn Stryd y Brenin



Ffynnon restredig yn Lôn-y-Llan



Parcio ar y stryd yn Lôn-y-Llan

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i integreiddio dodrefn o'r fath ymhellach mewn perthynas â golygfeydd allweddol, er mwyn osgoi niwed diangen.

Nid oes llawer o fannau trefol addas i stopio ynddynt o fewn yr Ardal Gadwraeth. Y prif fan yw Stryd y Brenin, er bod cyflwyno mannau parcio wedi dileu'r posibilrwydd o all defnyddio'r ardal hon i'w phwrpas gwreiddiol, neu er mwyn i bobl gael cymryd saib ac ystyried yr hyn sydd o'u cwmpas. Mae integreiddio rhywfaint o'r seddau awyr agored wedi helpu i gadw rhywfaint o ymdeimlad trefol y fan hon. Ar balmant Heol Cilgant, sy'n edrych dros y dirwedd i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth, ceir nifer o feinciau ar ei hyd, sy'n darparu golygfeydd eang, panoramig i'r pellter. Gan y lleolir y palmant hwn i ffwrdd o brif graidd y dref, a bod llai o anheddau yno, nid ydynt yn amharu ar symudiadau cerddwyr. Ceir palmantau lletach mewn dau le ar wedd de-ddwyreiniol swyddfeydd y Cyngor, ac yng nghyffordd Heol Newydd a Stryd Caerfyrddin. Byddai integreiddio tirweddu meddal neu ddodrefn tir y cyhoedd o ansawdd uchel, fel meinciau, cynwysyddion planhigion, arwyddion neu lanternau, yn helpu i gael mwy o fudd o'r mannau hyn.

Gwelir fod pobl yn parcio ar y stryd yn Lôn-y-Llan a Stryd Caerfyrddin. Gan eu bod yn strydoedd culach, gall hyn eu gwneud yn anoddach i'w cerdded, gyda cherbydau'n aml  wedi'u parcio ar hyd lled y palmant, sy'n cynyddu effaith y traffig.

Ychydig iawn o nodweddion treflun o bwys a geir o fewn yr Ardal Gadwraeth, ar wahân i ffynnon restredig yn Lôn-y-Llan a dau farciwr milltir rhestredig wrth y fynwent yng nghyffordd Heol y Bont a Stryd y Brenin.



Slabiau cerrig yn Heol y Bont



Arwyddion traffig yn Nheras yr Abaty

**Parc Penlan**

Tarmac a geir ar y prif lwybr i'r parc, sydd hefyd yn dilyn perimedr y parc, gan ddarparu cylchdaith cerdded sy'n arwain at y bandstand. Ar wahân i hyn, mae cyfres o derasau glaswellt a meinciau'n cynnig amryw fannau i eistedd a syllu ar y golygfeydd panoramig ar draws y dref ac Afon Tywi.

**Ystad Dinefwr**

Tarmac a geir ar y brif ffordd ddynesu a'r llwybr at Blas Dinefwr, gyda'r llwybrau amgylchynol sy'n croesi'r dirwedd yn gymysgedd o fwd a cherrig mân. Mae cyfres o feinciau, byrddau dehongli, arwyddion, ac adeileddau fel blociau toiledau, yn darparu gwybodaeth, cyfleusterau a chyfarwyddiadau i ymwelwyr. Cafodd pob nodwedd ei dylunio'n syml gyda deunyddiau sy'n sympathetig i natur fwy amaethyddol y dirwedd.



Llwybr mynediad i Barc Penlan



Parc Penlan




Ffordd fynediad at ffin ogleddol Ystad Dinefwr



Traciau anffurfiol i gerddwyr trwy'r ystad




Bwrdd dehongli


Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
Blaen siopau hanesyddol
Celfi stryd
Tŵr / meindwr
LLANDEILO
Pond
East Lodge
Recreation Ground
CARMARTHEN ROAD
DIANA ROAD
Bowling Green
Sports Facility
Skatepark
Play Area
Tennis Courts
Whitfield Terr
ORCHARD CLOSE
GREENFIELD PLACE
LÔN CAEFFYNNON
HEOL NEWYDD / NEW ROAD
Wellfield Terrace
Works
CARMARTHEN STREET
NORTH BANK
BANK BUILDINGS
RHOSMAEN ST
A483
Car Park
Clinic
Hall
Capel Newydd
CRESCENT ROAD
HEOL CILGANT
LATIMER ROAD
HEOL LATIMER
CLARENCE ROAD
Chapel (site of)
Ebenezer Baptist Chapel
ABBEY TERRACE/ TERAS YR ABATY
Church of St Teilo
Allot Gdns
YSGUBOR ABAD (TRACK)
KING STREET
GEORGE HILL
CHURCH STREET
QUAY STREET
BRIDGE STREET
Six Bells
Depot
Issues
Path (um)
Pen Lan-fawr
Bandstand
Penlan Park
Path
South Lodge
Well
Sewage Pumping Station
CR
Weir
Shingle
Llandeilo Bridge
Drain
MP 17.75

## 5.6 Deunyddiau a Dulliau Trin Ffiniau

### Tref Llandeilo

Ceir dau brif batrwm o ran dulliau trin ffiniau o fewn yr Ardal Gadwraeth: adeiladau yn union ar ymyl y stryd ym mhrif graidd masnachol Stryd Rhosmaen, ynghyd â waliau rwbel a gerddi blaen at y ffyrdd preswyl amgylchynol.

Yn nodweddiadol, mae'r gerddi blaen yn gul, a chanddynt waliau terfyn isel gyda rheiliau uwchben. Mae'r rhain yn amrywio o ran arddull a deunyddiau ledled yr Ardal Gadwraeth, a cheir y crynhoad mwyaf yn Heol Cilgant a Heol Newydd, gydag ambell enghraifft hefyd yn Lôn-y-Llan a Stryd  Caerfyrddin. Yn draddodiadol, byddai'r rhain wedi bod yn rhai isel o gerrig rwbel gyda rheiliau metel uwchben, ond mae ymyriadau ac addasiadau modern yn cynnwys rhai newydd mewn brics coch, blociau concrit, coed a rendrad, yn ogystal â rheiliau ag iddynt wahanol batrymau. Mae hyn wedi dileu cysondeb blaenorol y golygfeydd stryd hyn, ac wedi effeithio'r golygfeydd trwy'r strydoedd hyn. Gwelir nifer o leiniau caled a ffiniau cyfoes, gan gynnwys waliau a rheiliau ym mhen gogleddol Stryd Rhosmaen, sy'n gwanhau'r gyffordd allweddol hon i mewn i'r Ardal Gadwraeth. Byddai ailgyflwyno ffiniau hanesyddol yma, neu newid deunyddiau cyfoes i rai sy'n fwy sensitif o safbwynt hanesyddol, yn dyrchafu'r ardal hon yn fawr. Yr enghraifft fwyaf amlwg o ddulliau trin ffiniau cyfoes yw honno yn Swyddfeydd y Cyngor, sy'n cynnwys brics brown gyda rheiliau oren, y mae'r ddwy nodwedd yn annodweddiadol o'r ardal, ac yn amlwg yn mynd yn groes i weddill yr Ardal Gadwraeth.

Mae waliau terfyn cerrig yn amrywio o ran uchder ac arddull, a defnyddir cerrig rwbel a gwaith maen ag wyneb carreg. Ceir cymysgedd o wahanol fathau o ddulliau capio hefyd, gyda morter, llechi, a chapiau cerrig, yn aml gyda phwynt trionglog. Mae tirwedd werdd y fynwent wedi cuddio llawer o'r wal derfyn ac wedi cuddio'r ymyl caled blaenorol i'r stryd, er nad yw'r nodwedd hon o reidrwydd yn tynnu oddi wrth yr ardal.

Hefyd, mae rheiliau hanesyddol yn wahanol o ran arddull i'r rheiliau llorweddol agored a welir yn yr hen Ysgoldy ac yn Heol y Bont, fel y gwelir o ran y rheiliau fertigol mwy traddodiadol yn Heol Cilgant a Heol Newydd.

Mae ffiniau o bwys yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'n rhestr gyflawn:

- Y wal gwaith maen ag wyneb carreg gyda rheiliau, giatiau a therfyniadau metel addurnol wrth yr Eglwys Galfinistaidd Gymreig ar Heol Newydd
- Y wal gwaith rwbel gyda chreneliadau yn Nheras yr Abaty
- Wal derfyn gwaith rwbel yn Eglwys Sant Teilo
- Wal derfyn gwaith rwbel grom, gyda rheiliau addurnol, yn hen Neuadd y Sir
- Waliau rwbel uchel gyda giatiau addurnol yn Stryd Sant Siôr
- Wal rwbel uchel a phalmant uwch, gyda rheiliau metel agored, wrth yr Ysgol Genedlaethol a'r hen ysgoldy ar Stryd Caerfyrddin
- Wal gynnal rwbel ar lethr wrth y 'Kings Head'
- Rheiliau metel ar Heol Cilgant



Wal derfyn a giatiau i Stryd Sant Siôr



Wal gerrig gyda chreneliadau yn Nheras yr Abaty



Palmant uwch a rheiliau metel wrth yr Ysgol Genedlaethol a'r hen ysgoldy

## Parc Penlan

Ar y cyfan, mae'r parc yn cynnwys tir agored gyda llethrau glaswellt wedi'u terasu. Mae rheiliau'r bandstand yn nodedig. Mae'r ffens agored, a'r wal derfyn is ar y llwybr o Heol Caerfyrddin i'r parc, yn amlygu'r tu ôl i'r adeiladau ynghyd â'u toeau, na fyddent fel arall yn cael sylw ac, fel y cyfryw, maent yn effeithio'r golygfeydd.

## Ystad Dinefwr

Ceir amrywiaeth o ddulliau trin ffiniau o fewn yr ystad. Ym Mhlas Dinefwr, ceir waliau o waith cerrig rwbel wedi'u gosod mewn haenau, ynghyd â giatiau addurnol. Yn yr ystad ehangach, ceir waliau o waith rwbel, ffensys a giatiau pren, bolardiau coed, ffensys weiren a giatiau metel. Mae'r rhain i gyd yn amaethyddol o ran natur, sy'n briodol i'w lleoliad.



Wal gerrig rwbel a ffens fetel agored



Y bandstand



Rheiliau metel



Wal gerrig rwbel



Ffensys coed a physt a weiren

# 6.0 Dadansoddiad o'r Adeiladau

*6.1 Adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at Ardal Gadwraeth*


Yn ychwanegol i'r adeiladau nodedig hynny a nodir yn adran 4.1, mae sawl adeilad cyffredin arall yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad ac ansawdd yr ardal gadwraeth; gall hyn fod am nifer o resymau gwahanol. Yn eu plith y mae eu cyfraniad o ran y treflun, eu hansawdd, eu nodweddion addurnol, neu eu cysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol.

Tra bo sawl adeilad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal gadwraeth, mewn nifer o achosion, amharwyd ar eu hansawdd pensaernïol gan newidiadau o safon wael. O ran eiddo domestig, mae hyn yn tueddu i fod o ganlyniad i golli nodweddion hanesyddol fel ffenestri codi a wnaed o goed. Er hyn, mae'r adeiladau'n dal i arddangos nodweddion cryf ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol y gellid eu gwella'n sylweddol trwy adfer newidiadau sy'n tynnu oddi wrthynt. Byddid yn cefnogi ceisiadau i ddadwneud addasiadau anghydnaws, naill ai yn ffurf cais ar gyfer yr addasiadau hynny'n benodol, neu fel rhan o waith ailddatblygu ehangach.

*6.2 Adeiladau sy'n tynnu oddi wrth yr Ardal Gadwraeth*

Nodir bod adeiladau negyddol yn rhai sydd, o ganlyniad i'w graddfa, eu dyluniad manwl, neu ddeunyddiau, yn anghyson mewn perthynas â chymeriad y rhan helaeth o'r ardal gadwraeth. Gellir ystyried y rhain fel adeiladau y dylid eu hailddatblygu'n gyfan gwbl er, mewn rhai achosion, gall fod yn addas i gadw cragen yr adeiladau hyn, gan osgoi'r carbon sy'n rhan o waith ailddatblygu ar raddfa fawr.

Nodir yr adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol, a'r rhai sy'n tynnu oddi wrth yr ardal, ar y map a ganlyn.




Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
Adeiladau cadarnhaol
Adeiladau amharol

# 7.0 Arwyddocâd

Un o'r egwyddorion arweiniol o ran rheoli newid o fewn yr amgylchedd hanesyddol yw dealltwriaeth o arwyddocâd yr ased hwnnw, bo hwnnw'n adeilad, yn lle, neu'n rhywbeth mwy anghyffwrdd o ran natur. O ran arfer orau, awgrymir y dylid asesu arwyddocâd yn erbyn cyfres o werthoedd a nodir isod:

Gwerth Tystiolaethol: Yr olion ffisegol a'r adeiladwaith sy'n goroesi, sy'n dal i fodoli yn yr ardal

Gwerth Hanesyddol: Sut y gall yr ardal ein haddysgu am bobl, digwyddiadau neu agweddau ar fywyd y gorffennol.

Gwerth Esthetig: P'un a yw'r ardal yn un bleserus o ran crwydro o'i chwmpas a'i phrofi.

Gwerth Cymunedol: Ei gwerth yng ngolwg y bobl sy'n byw yn yr ardal, sy'n gweithio ynddi, ac yn ymweld â hi.

Efallai bod pob un o'r gwerthoedd hyn yn bodoli i amryw lefelau, o lefel is i lefel uchel, ac mae'n bwysig deall hyn hefyd. Yn ogystal, mae'n bwysig adnabod yr eitemau hynny nad ydynt efallai'n dod o fewn y categorïau hyn, neu sy'n dod fewn mwy nag un categori, a hynny i wahanol lefelau. Gall hyn fod yn wir yn enwedig wrth ystyried y nodweddion hynny sy'n creu ymdeimlad o le.

Mae'r crynodeb a ganlyn yn nodi'r prif eitemau sydd o arwyddocad o safbwynt yr Ardal Gadwraeth. Dilynir hyn gan archwiliad fanylach o bob eitem, gan orffen trwy nodi'r modd y mae pob un yn cysylltu â gwerthoedd tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol, ac i ba lefel.

- Cysylltiadau â Sant Teilo, yr enwyd y dref ar ei ôl, sef ffigwr pwysig yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru yr oedd sôn ei fod wedi'i gladdu yn Llandeilo
- Eglwys Blwyf Sant Teilo, er bod y rhan fwyaf ohoni wedi'i hailadeiladu, ond mae'n tarddu o'r Oesoedd Canol
- Yn ôl y sôn, bu Dinefwr yn brif ganolfan y Deheubarth, sef Teyrnas Gymreig yng nghyfnod yr Oesoedd Canol Cynnar
- Parc Dinefwr
- Cysylltiad â Rhys ap Gruffudd, gyda Dinefwr yn ganolbwynt y pŵer o le yr oedd yn rheoli'r rhan helaeth o dde-orllewin Cymru, ac a oedd hefyd wedi adeiladu'r Newton House cyntaf
- Mae'n cynnwys dwy heneb gofrestredig sy'n gysylltiedig â Chaer Rufeinig Dinefwr a'r Hen Gastell
- Newton House/ Plas Dinefwr, gan gynnwys y dirwedd o'r 18fed Ganrif a ddyluniwyd gan Capability Brown
- Cysylltiad hanesyddol â'r porthmyn a oedd yn enaid tafarnau'r dref a sedydlu'r banciau yn y 18fed Ganrif
- Lle hanesyddol i dorri siwrnai ar y llwybr rhwng Aberhonddu a Gorllewin Cymru, a De Cymru, gyda sawl tafarn wedi'i chreu i'w gefnogi, sy'n dal i fod ar agor heddiw
- Yn gynrychioladol o'r cyfnod twf mwyaf arwyddocaol yn ne-orllewin Cymru yn ystod y 18fed a'r 19eg Ganrif
- Pont Llandeilo sy'n darparu llwybr allweddol dros Afon Tywi
- Patrwm strydoedd y mae llawer ohono wedi goroesi o'r 19eg Ganrif
- Adeileddau rhestredig nodedig, gan gynnwys nifer o flaenau siopau sydd wedi goroesi o'r 19eg Ganrif
- Amrywiaeth o ran mathau o adeiladau, eu defnydd, eu manylion a'u deunyddiau, sy'n newid golygfeydd o'r strydoedd
- Cysylltiad ag Anghydffurfiaeth o fewn de-orllewin Cymru
- Bu nifer o breswylwyr nodedig yn byw o fewn yr Ardal Gadwraeth, a chafwyd sawl digwyddiad nodedig yno
- Golygfeydd allan tuag at y dirwedd amgylchynol, sy'n gwrthgyferbynnu â golygfeydd agosach o'r strydoedd, ynghyd â rhai yn y pellter
- Marchnad ganoloesol adnabyddadwy
- Adeiladau cornel wedi'u dylunio
- Craidd masnachol Llandeilo, gyda blaenau siopau o ansawdd dda, sydd wedi goroesi o'r 19eg Ganrif

*Sant Teilo*

Mae Sant Teilo yn ffigwr Cristnogol pwysig yn hanes Cymru, gydag eglwysi wedi'u cysegru iddo ledled De Cymru a Llydaw. Er mai ychydig iawn a wyddir yn bendant am ei fywyd, ymddengys mai Llandeilo oedd wrth wraidd ei gwlt, a hithau wedi'i lleoli ar y ffordd Rufeinig, gyda chysylltiadau da i'r dwyrain a'r gorllewin. Sefydlodd gymuned yn Llandeilo a thybir y cafodd ei gladdu yno. Mae Eglwys y Plwyf yn dal i ddwyn ei enw, ac mae cysylltiad y dref â'r ffigwr hanesyddol arwyddocaol hwn yn parhau.

*Eglwys Blwyf Sant Teilo*

Mae'r rhan fwyaf o adeilad yr eglwys a welwn heddiw yn ganlyniad gwaith ailadeiladu yn y 1850'au, er ei bod yn debygol bod y tŵr yn dyddio o ddiwedd yr Oesoedd Canol, o'r adeilad gwreiddiol. Bu'r fynwent a'r eglwys yng nghanol Llandeilo o'i dechreuad yn y Canol Oesoedd, ac maent yn dal i ddiffinio cryn dipyn o'r modd yr ydych yn symud trwy'r dref, ac yn ei gweld a'i phrofi. Y man gwyrdd a gynigir gan yr eglwys yw'r fan agored fwyaf o fewn y dref, ac mae hefyd yn rhan bwysig o gymeriad y dref, ac yn lle i fyfyrio, gorffwys a chydnabod yr hyn sydd o'ch amgylch, y tu hwnt i graidd trefol y dref.

*Dinefwr*

Y Deheubarth oedd enw teyrnasoedd De Cymru a unodd o dan Dŷ Dinefwr tua 920, gyda Dinefwr fel ei chanolfan. Fe oresgynnwyd Dinefwr dro ar ôl tro yn y 10fed a'r 11eg Ganrif, ond fe'i hymgryfhawyd ymhellach gan Rhys ap Gruffydd a oedd yn llywodraethu'r Deheubarth o 1155-1197. Fel y cyfryw, daeth i fod yn brif ganolfan ei bŵer hyd at yr adeg y rhannodd Edward I y de yn siroedd hanesyddol Sir Aberteifi, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

*Parc Dinefwr*

Mae Parc Dinefwr o arwyddocâd eithriadol am ei archaeoleg, ei hanes, ei ecoleg, a'i adeiladau. O fewn y parc, ceir gweddillion o dan y ddaear o ddwy gaer Rufeinig, y castell, Plas Dinefwr, Eglwys Llandyfeisant, yn ogystal â phorfa goetir hynafol, y dirwedd a ddyluniwyd gan Capability Brown, a phob math o ffawna a fflora, cennau, pryfetach ac anifeiliaid. Ar ôl pum canrif o berchnogaeth barhaus yn nwylo'r teulu Dynevor, chwalwyd yr ystad yng nghanol yr 20fed Ganrif, gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Byd Natur De a Gorllewin Cymru a Cadw yn rhannu'r rhan fwyaf o'i pherchnogaeth, gydag ambell barsel mewn perchnogaeth breifat.

*Rhys ap Gruffudd*

Un o'r ffigyrau pwysicaf o safbwynt hanes Llandeilo oedd y rhyfelwr canoloesol - y Tywysog Rhys ap Gruffudd. Yn niwedd y ddeuddegfed ganrif, hwn oedd yr un mwyaf pwerus o blith sawl tywysog brodorol, gyda'i reolaeth yn ymestyn dros Dywysogaeth y Deheubarth, sef yr ardal o dde-orllewin Cymru sy'n cyfateb yn fwy neu lai i siroedd modern Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Y tywysog hwn oedd y tywysog brodorol olaf i arfer rheolaeth unedol. Yr oedd hefyd yn gyfrifol am adeiladu Castell Dinefwr, ac efallai'r tŷ gwreiddiol, sef rhagflaenydd Plas Dinefwr.

*Caer Rufeinig Dinefwr*

Ym 2003, daethpwyd o hyd i weddillion dwy gaer Rufeinig ym Mharc Dinefwr, yn ogystal ag anheddiad sifil a nodweddion cysylltiedig eraill, gan gynnwys Ffordd Rufeinig a baddondy posibl. Ystyrir ei bod yn dyddio'n ôl i AD74 a'i bod yn tua 3.9 hectar o ran maint, sy'n ei gwneud yn un o'r caerau ymgyrch mwyaf yng Nghymru. Ymddengys yr adeiladwyd yr ail gaer, sy'n llai, ar yr un safle ar ôl y goresgyniad Normanaidd, gydag anheddiad yn tyfu o gwmpas ei giatiau. Dynodwyd y safle'n heneb gofrestredig am ei bwysigrwydd cenedlaethol, er mwyn cynyddu ein gwybodaeth am drefniadaeth filwrol Rufeinig, yn ogystal â'r dystiolaeth o ran arteffactau, gan gynnwys gweddillion organig, y credir eu bod wedi goroesi o dan y ddaear.

*Castell Dinefwr*

Mae'n debygol yr adeiladwyd y castell gwreiddiol gan Rhys ap Gruffudd gyda'i fab, Rhys Grug, yn ei addasu wedyn ac yn ei ddatgaeru. Ond fe'i hadnewyddwyd, ar ôl mynd i ddwylo Seisnig ym 1316. Ar ôl adeiladu Plas Dinefwr ym 1660, addaswyd tŵr y castell fel tŷ haf, ond fe'i llosgwyd yn y 18fed Ganrif. Â hwnnw bellach mewn cyflwr adfeiliedig, mae o'n dal i gynnwys rhannau o'r tyrau, y murfylchau, tŵr y castell a thramwyfa gron lle gellir gweld y golygfeydd eithriadol o'r dirwedd amgylchynol ac Afon Tywi. Dynodwyd y castell yn heneb gofrestredig am ei botensial i gynyddu ein dealltwriaeth o fywyd cymdeithasol, domestig, a gwleidyddol, ynghyd â rhyfela, yn y canoloesoedd. Mae'r castell hefyd yn dirnod arwyddocaol yn y dirwedd.

*'Newton House'/ Plas Dinefwr*

Wedi'i adeiladu'n wreiddiol ym 1660 gan y teulu Rhys, sef disgynyddion yr Arglwydd Rhys. Dros y blynyddoedd, gwelwyd ailddylunio'r tŷ sawl gwaith, gan gynnwys creu talwyneb Gothig yn y 1850au, er y mae llawer o'r nodweddion gwreiddiol, sy'n dyddio o'r 17eg Ganrif yn dal i'w gweld o fewn y tŷ hyd heddiw. Cymerwyd yr enw 'Newton House' o'r 'New Town' a adeiladwyd ar gyfer yr ymsefydlwyr Seisnig yn y cyfnod canoloesol, gyda'r enw Cymraeg, Plas Dinefwr, yn cael ei fabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar yr adeg y daeth yn eiddo iddi. Mae'n dal i fod yn un o'r tai mwyaf arwyddocaol yn Ne Cymru, o ran ei ansawdd pensaernïol, yn ogystal â'i gysylltiad hanesyddol ag un o'r teuluoedd amlycaf yn hanes Cymru.

*Y porthmyn*

Roedd porthmyn yn ddynion a fyddai’n mynd â gwartheg dros bellteroedd maith, gan eu gyrru i farchnadoedd neu borfeydd dros yr haf. Erbyn diwedd y 18fed Ganrif, roedd yr arfer o yrru da byw wedi’i hen sefydlu, a byddai’r mwyafrif o’r trefi a phentrefi yr oeddynt yn pasio trwyddynt yn eu hofni, ac yn cael eu syfrdanu ganddynt. Roedd Llandeilo yn ganolfan fasnach o fewn y 18fed a’r 19eg Ganrif, ac roedd y porthmyn yn rhan hanfodol o’r system hon. Sefydlwyd llawer o’r tafarnau i gefnogi’r llwybrau masnach hyn, a phorthmona oedd wedi helpu i hybu bancio yn y dref. Sefydlwyd y ‘Black Ox Bank’ yn Adeiladau’r Banc gan y porthmyn ym 1842, ac fe’i hailadeiladwyd ym 1887, gan ei ymgorffori o fewn banc Lloyds ym 1909.

*Tafarnau*

Erbyn y 18fed Ganrif, roedd y coetsis mawr yn gyfranwyr arwyddocaol i economi’r dref, a oedd yn darparu man hwylus i dorri’r siwrnai rhwng Aberhonddu a Gorllewin Cymru, a De Cymru. Roedd sawl tafarn yn y dref yn darparu stablau i’r ceffylau, ynghyd â llety a lluniaeth i deithwyr. Ymhlith y tafarnau hyn yr oedd y ‘Six Bells’, y ‘Boot and Shoe’, y ‘White Lion’, y ‘Red Lion’, y ‘George Inn’, a ‘The Bear’, sef y ‘Cawdor Arms’ erbyn hyn. Gellir adnabod sawl un o’r adeiladau hyn hyd heddiw, ac maent yn dal i gael eu defnyddio fel tafarnau, sy’n cynnal y rhan bwysig hon o hanes y dref.

*Twf yn y 18fed a’r 19eg Ganrif*

Mae llawer o’r hyn o welwn o fewn y dref heddiw’n gynnyrch y 18fed a’r 19eg Ganrif, pryd y gwelodd y dref, a chryn dipyn o dde-orllewin Cymru ddatblygiad o ganlyniad i ehangiad masnach, diwydiant a’r rheilffyrdd. Yn eu sgil, cafwyd nid yn unig adeiladau masnachol, ond tai tref ffasiynol, tafarnau, tai coffi, bythynnod i weithwyr, capeli, eglwysi, adeiladau cyhoeddus ac adeiladau diwydiannol, ynghyd â’r preswylwyr, gweithwyr, masnachwyr a theithwyr.

*Pont Llandeilo*

Cyn 1730, dim ond dwy bont gerrig fawr oedd yn rhychwantu Afon Tywi - un ag iddi chwe bwa yng Nghaerfyrddin, ac yn arall yn Llandeilo, ag iddi saith bwa. Fel y cyfryw, yn hanesyddol, a hyd heddiw, roedd yn fan croesi strategol ar draws Afon Tywi. Adeiladwyd y bont bresennol ym 1843, ac mae’n dal i weithredu fel y prif lwybr i mewn i’r dref o’r de, yn ogystal â bod yn nodwedd allweddol o fewn y dirwedd.

*Y patrwm strydoedd hanesyddol sy’n goroesi*

Ar y cyfan, mae patrwm strydoedd y 18fed Ganrif yn dal i fodoli, ac yn parhau i lywio datblygiadau a’r modd yr ydych yn symud trwy’r ardal ac yn ei phrofi.

*Amrywiaeth o arddulliau o ran adeiladau*

Mae amrywiaeth o fathau o adeiladau, cyfnodau, defnyddiau, manylion a deunyddiau pensaernïol, y maent yn aml o ansawdd uchel, yn newid golygfeydd y strydoedd yn barhaus, ac yn creu mannau o ddiddordeb a phethau i’w canfod. Yn ychwanegu at yr amrywiaeth hon y mae’r toeau amrywiol, y blaenau siopau ar strydoedd cefn sy’n annog pobl i symud trwy’r ardal, ac mae hyn i gyd yn nodweddu datblygiad ac esblygiad parhaus y dref.

*Adeiladau o arwyddocâd lleol a chenedlaethol*

Ceir cyfres o adeiladau rhestredig ledled yr Ardal Gadwraeth sydd wedi’u rhestru am eu hansawdd o safbwynt pensaernïol, ynghyd â’u hadeiladwaith hanesyddol sy’n goroesi. Fel y cyfryw , ma e’r rhain nid yn unig yn meddu ar estheteg o ansawdd uchel, ond hefyd yn caniatáu i ni ddeall y modd y gallech fod wedi profi’r ardal yn y gorffennol. Yn lle mae adeiladwaith hanesyddol yn goroesi, gall hyn hefyd lywio gwaith i adfer manylion a gollwyd, ynghyd ag ysbrydoli datblygiadau i’r dyfodol sy’n deillio o gymeriad yr ardal, sydd o ansawdd uchel.

*Anghydffurfiaeth*

Fel mewn mannau eraill o Gymru, roedd dyfodiad y ‘capel’ yn thema arwyddocaol yn y 19eg ganrif. Rhwng 1763 a 1765 gwnaeth John Wesley, sefydlwr Methodistiaeth, sawl ymweliad â Sir Gaerfyrddin, gan aros weithiau yn ‘The Bear Inn’, ac ym 1806, sefydlwyd Capel Methodist yn y cyffiniau. Hyd yn oed cyn hynny, y Capel Methodist Calfinaidd oedd yr addoldy cyntaf i agor yn y dref, a ddilynwyd gan Gapel Methodist Wesleaidd Horeb, Capel y Bedyddwyr Ebeneser. Capel Methodistiaid Calfinaidd Salem, y Capel Methodist Wesleaidd, a Chapel Newydd.

Mae'r capeli hyn yn dal i fod yn rhan annatod o gymeriad y mwyafrif o'r strydoedd o fewn y dref, gyda phob un yn dirnodau arwyddocaol ynddynt eu hunain.

*Digwyddiadau a phobl nodedig*

Bu'r Ardal Gadwraeth yn dyst i sawl digwyddiad hanesyddol nodedig, bu'n gartref i sawl preswylydd nodedig, ac mae'n cynnal cysylltiad ffisegol â llawer o'r rhain trwy adeileddau adeiledig. Mae hyn yn cynnwys y rheini y soniwyd amdanynt eisoes uchod, yn ogystal â Brenin Siôr IV a ymwelodd â'r dref yn y 1820au, ac mae enwau'r strydoedd Stryd y Brenin, Allt Siôr/George Hill a Stryd Siôr yn coffáu'r achlysur hwn. Roedd Richard Vaughan, 2il Iarll Carbery, yn preswylio yn Llandeilo, yn ogystal â 6ed Iarll Cawdor, Hugh John Vaughan Campbell, a George Rice-Trevor, 4ydd Barwn Dynevore; Thomas Edwards, y llenor, a oedd yn byw yn y dref yn y 18fed Ganrif; a'r artist mwyaf adnabyddus a oedd yn hanu o Landeilo oedd Carey Morris.

*Golygfeydd arwyddocaol*

Mae topograffi'r ardal yn creu cyfres o olygfeydd arwyddocaol i mewn i'r ardal, o gyfeiriad yr ardal a ledled yr ardal, gan gynnwys y golygfeydd i'r pellter ar hyd strydoedd. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r golygfeydd agosach, i'r naill ochr, ar hyd y llwybrau troellog o gwmpas y dref. Ceir golygfeydd caeedig trwy'r strydoedd ochr, ynghyd â'r golygfeydd ehangach allan i'r dirwedd y tu hwnt. Mae pob un o'r golygfeydd hyn yn darparu safbwynt gwahanol o ran yr ardal, y modd y mae wedi datblygu, ac yn newid y modd yr ydych yn symud trwy bob rhan ohoni ac yn eu profi.

*Y farchnad ganoloesol*

Roedd gan gynllun y dref ganoloesol sgwâr tref yn ei chanol, yn wynebu Eglwys Sant Teilo, y mae ei ffurf a'i leoliad yn weladwy hyd heddiw.

Mae'n werthfawr o safbwynt hanesyddol, ond yn darparu man gorffwys hefyd, mae'n gyrchfan ac yn nodwedd o'r treflun sy'n effeithio ar olygfeydd, symudiadau trwy'r dref, ac mae'n gydran unigryw ohoni.

*Adeiladau cornel amlwg*

Yn aml, caiff corneli eu dathlu o fewn yr Ardal Gadwraeth trwy ddyluniad adeiladau cornel amlwg, sy'n fwy amlwg o ganlyniad i loriau uwch, a gweddau siamffrog neu grwm. Mae'r rhain yn creu cyfres o dirnodau ar hyd gwedd y stryd, yn ogystal ag yn nodweddu'r fynedfa i strydoedd cyfagos. Mae'r rhain yn adeiladau o ansawdd uchel ynddynt eu hunain, ond mae eu cyfraniad at olygfeydd a'r strydlun yn bwysig hefyd.

*Y prif graidd masnachol*

Yr Ardal Gadwraeth yw prif graidd manwerthu Llandeilo. Fel y cyfryw, mae cyfraniad blaenau siopau, yn ogystal â'r gweithgareddau a'r bobl a ddaw yn sgil hyn, yn rhan bwysig o gymeriad yr ardal. Mae nifer o flaenau siopau yn goroesi o'r 19eg Ganrif, sy'n rhoi dealltwriaeth i ni o ddatblygiad masnachol y dref yn y cyfnod hwn.

| | Gwerth Tystiolaethol | Gwerth Hanesyddol | Gwerth Esthetig | Gwerth Cymunedol |
|---|---|---|---|---|
| Sant Telio | | | | |
| Eglwys Blwyf Sant Teilo | | | | |
| Dinefwr | | | | |
| Parc Dinefwr | | | | |
| Rhys ap Gruffudd | | | | |
| Caer Rufeinig Dinefwr | | | | |
| Castell Dinefwr | | | | |
| Newton House/ Plas Dinefwr | | | | |
| Y Porthmyn | | | | |
| Tafarnau | | | | |
| Twf y 18fed a r 19eg Ganrif | | | | |
| Pont Llandeilo | | | | |
| Patrwm strydoedd hanesyddol | | | | |
| Amryw arddulliau r adeiladau | | | | |
| Adeiladau o arwyddocâd lleol a chenedlaethol | | | | |
| Anghydffurfiaeth | | | | |
| Digwyddiadau a phobl nodedig | | | | |
| Golygfeydd arwyddocaol | | | | |
| Marchnad ganoloesol | | | | |
| Adeiladau cornel amlwg | | | | |
| Prif graidd masnachol | | | | |

| | |
|---|---|
| Gwerth Isel | |
| Gwerth Canolig | |
| Gwerth Uchel | |

# 8.0 Problemau, Bygythiadau, a Chynigion o Safbwynt Rheoli

*Trosolwg strategol*

Fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ardal gadwraeth yw 'an area of special architectural or historic interest the character or appearance of which it is desirable to preserve or enhance'. Fel y cyfryw, mae angen i Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sicrhau 'special attention shall be paid to the desirability of preserving or enhancing the character or appearance of that area' (Adran 72). Mae gan CSC ddyletswydd 'from time to time to formulate and publish proposals for the preservation and enhancement of any parts of their area which are conservation areas' (Adran 71).

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r problemau a'r bygythiadau a nodwyd trwy baratoi Arfarniad Cymeriad Ardal ar gyfer Llandeilo. O ran pob eitem, cynigir argymhellion ar gyfer ei rheoli. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac nid yw'n golygu na ellir cynnwys eitemau ychwanegol a fydd yn codi ar hyn o bryd, neu o fewn datblygiad yr Ardal Gadwraeth at y dyfodol.

Mae'r materion yn ymwneud â'r eitemau cyfredol hynny sy'n amharu ar olwg neu gymeriad yr ardal. Bygythiadau yw'r eitemau hynny, nad ydynt yn achosi niwed ar hyn o bryd, ond a fydd efallai yn gwneud hynny trwy addasiadau ansensitif. O ran yr eitemau hynny a nodir fel problemau, dylid eu hystyried hefyd fel y rheiny sy'n fygythiad parhaus. Ochr yn ochr â phob un ohonynt, ceir argymhelliad o ran rheoli, gyda'r bwriad o sicrhau bod cymeriad, golwg yr ardal gadwraeth, ei harwyddocâd, a'i diddordeb arbennig o safbwynt pensaernïol a hanesyddol, yn cael eu cadw a'u gwella. Gallai'r argymhellion hyn o ran yr amgylchedd

lywio'r gwaith o gynhyrchu dogfen bolisi ehangach a manylach ar gyfer rheoli'r ardal, i'w llunio gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Nodwyd y materion trwy ymweliadau â safleoedd, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor Sir a'r cyhoedd. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, o ran cadwraeth yr adeiladwaith hanesyddol presennol, ynghyd ag effaith datblygiadau newydd ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y rheiny y nodwyd eu bod yn effeithio tir y cyhoedd.

Darparwyd enghreifftiau hefyd i ddangos enghreifftiau da a gwael o'r modd y rheolir yr eitemau hyn, er mwyn cynnig arweiniad ychwanegol wrth ystyried datblygu o fewn yr ardal. Mae'n bwysig darllen y canlynol ar y cyd â'r holl arweiniad a dogfennau polisi perthnasol, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol 2018 - 2033 CSC, a chanllawiau cynllunio atodol.

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| **1.0 Ailddatblygu** | | | |
| 1.1 | Mewn ardaloedd lle ceir cysondeb o safbwynt uchder lloriau, màs, deunyddiau, manylion pensaernïol, maint lleiniau a/neu'r berthynas â'r stryd, caiff unrhyw wyriad oddi wrth hyn effaith uniongyrchol, yn enwedig yn lle ceir golygfeydd o bell. Er enghraifft, mae datblygiadau lletach ar Heol Newydd wedi cael effaith negyddol ar yr adeiladau yn ei chyffiniau, yn ogystal â'r golygfeydd o'r strydoedd ar hyd y ffordd. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai unrhyw waith ar adeiladau hanesyddol, ynghyd ag addasiadau ac estyniadau, ymateb mewn modd cadarnhaol i arddull pensaernïol gwreiddiol yr adeilad, ynghyd â'i leoliad, a dylai wella ei olwg traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at y Canllaw Creu Lleoedd 2020. |  |
| **2.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol** | | | |
| 2.1 | Gall colli nodweddion fel simneiau a chyflwyno toeau dormer newid toeau yn llwyr, a chael effaith niweidiol ar olygfeydd, yn enwedig yng ngolau topograffi'r ardal sy'n darparu golygfeydd eang o adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth. | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y manylion o safbwynt pensaernïaeth, fel ffenestri, ynghyd â deunyddiau sydd ar gael yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn modd sydd o fudd i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.<br><br>Dylid ystyried y defnydd ehangach o Gyfarwyddydau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw addasiadau, lle bo'n briodol. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli nodweddion traddodiadol sy'n cyfrannu at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | Gall cyflwyno gwaith sy'n ymddangos yn ddibwys gael effaith gronnol ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd, ynghyd â lleoliad yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau a ganlyn:<br><br>Newid ffenestri er mwyn gosod rhai PVC yn eu lle Cyflwyno gwasanaethau newydd mewn lleoliadau amlwg<br><br>Colli cafnau dŵr ac ati a wnaed o haearn bwrw<br><br>Gosod teils coch a theils concrit yn lle llechi<br><br>Colli drysau ffrynt coed panelog gyda chanopiau a setiau drysau<br><br>Colli ffiniau hanesyddol fel rheiliau a waliau rwbel | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y manylion nodweddiadol o safbwynt pensaernïaeth, fel ffenestri, ynghyd â deunyddiau sydd ar gael yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn modd sydd o fudd i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio gynnwys cyngor hefyd ynghylch gwaith ôl-osod mewn adeiladau presennol, i wella eu perfformiad thermol, ynghyd ag ynghylch gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy heb niweidio cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddydau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau a restrir, lle bo'n briodol. |  |
| 2.3 | Mae chwipio adeiladau â gro, yn lle'r rendrad calch traddodiadol, wedi cael cryn effaith ar adeiladau a golygfeydd ledled yr Ardal Gadwraeth. | Dylid annog y defnydd o ddeunyddiau traddodiadol fel rendrad calch, a dylid gwrthwynebu ceisiadau ar gyfer cyflwyno mathau amhriodol o blastr a rendrad. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| 2.4 | Ymddengys fod gwaith diawdurdod ar adeiladau'n broblem gyffredin, gan gynnwys gwaith fel gosod nodweddion newydd fel ffenestri a drysau yn lle rhai hanesyddol neu gael gwared ar ganopïau, porticos, palistrau a simneiau.<br>Mae hyn wedi arwain at erydiad cyson yng nghymeriad rhai rhannau o'r Ardal Gadwraeth, yn enwedig o ran hynny a welir yn Heol Newydd a phen gogleddol Stryd Rhosmaen.<br>Mae gwneud gwaith diawdurdod yn annog perchnogion eiddo eraill i wneud gwaith tebyg, a gall arwain at effaith gronnol ar raddfa fwy. | Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddydau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau o'r fath. |  |
| 2.5 | Ymddengys fod gwaith atgyweirio a chynnal adeiladau wedi'i esgeuluso ledled yr Ardal Gadwraeth, gan fod sawl adeilad mewn cyflwr gwael. Oherwydd natur yr Ardal Gadwraeth, caiff hyn effaith arwyddocaol ar olygfeydd, a gall olygu colli asedau treftadaeth arwyddocaol, yn rhannol neu'n gyfan gwbl. | Cyhoeddi canllawiau ar waith cynnal a chadw ac atgyweirio priodol ar gyfer adeiladau ac adeileddau o fewn yr Ardal Gadwraeth. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| **3.0 Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd** | | | |
| 3.1 | Fel arfer, mae ffyrdd, palmantau a dulliau cyfoes o drin ffiniau wedi'u gwneud o ddeunyddiau modern, a gallant dynnu oddi wrth leoliad adeiladau a thir y cyhoedd. Er enghraifft, y rheiliau metel i'r gogledd o Stryd Rhosmaen. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydgysylltiedig i fynd i'r afael â goleuadau, deunyddiau, dulliau trin ffiniau, ynghyd â dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adfer i wella golwg strydoedd, gan gynnwys cael gwared â blerwch, cynnal a chadw mannau sydd angen eu paentio, ynghyd â chyflwyno deunyddiau wyneb a dodrefn stryd priodol. Dylai'r canllawiau ystyried cynnal a chadw dodrefn stryd i sicrhau bod ymddangosiad o ansawdd yn parhau. |  |
| 3.2 | Caiff traffig effaith niweidiol ar gymeriad cyffredinol yr ardal, sy'n golygu colli mannau i gael seibiant, ynghyd â mannau i gwrdd â phobl eraill, a fyddai fel arall yn caniatáu i bobl aros am ennyd i fyfyrio a gwerthfawrogi eu hamgylchedd. Hefyd, mae'r nifer annigonol o bwyntiau croesi a phalmantau cul yn gwahanu strydoedd ac yn rhwystro pobl rhag gwerthfawrogi'r adeiladau oherwydd bod dwysedd y traffig yn cuddio lloriau gwaelod. | Llunio a rhoi strategaeth ar waith yng nghyswllt cyfleoedd ar gyfer creu rhagor o barthau cerddwyr, a gwella cynllun ffyrdd. Bydd y cyngor yn annog ac yn hybu cynigion i wella cysylltedd ar gyfer beicwyr a cherddwyr, sydd hefyd yn ymgorffori mannau cyhoeddus. |  |
| 3.3 | Mae "anniben" yn y stryd oherwydd llawer o arwyddion cyhoeddus, polion, a rhwystrau, yn enwedig ar ochrau strydoedd, yn gallu achosi dryswch, yn gallu effeithio ar olygfeydd a thynnu ar yr amgylchedd ehangach. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluynio strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydlynol mewn perthynas â dodrefn stryd ac arwyddion. Blaenoriaethu cyfres o adnewyddiadau i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys cael gwared ar anniben, cael gwared ar hen arwyddion a chynnal a chadw gwaith paent. | |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| 3.4 | Trwy'r Ardal Gadwraeth Gyfan, dylid sicrhau'r ansawdd orau a dyluniad cyson o ran dodrefn stryd, gan gynnwys goleuadau stryd modern, meinciau, biniau, byrddau cyfeirio, arwyddion stryd, a gwelyau plannu. Gwnaed rhywfaint o ymdrech i gyflwyno elfennau cyffredin, o ran byrddau dehongli, ond ni wnaed hyn yn gyson ar draws canol y dref neu'r Ardal Gadwraeth. Byddai dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â dodrefn stryd o ansawdd uchel yn helpu i uno cymeriad yr ardal, ac yn dyrchafu ansawdd tir y cyhoedd yn sylweddol. | Dylid dylunio arwyddion a dodrefn mewn modd sensitif a'u hintegreiddio o fewn y strydlun. Byddai ymagwedd gydgysylltiedig yn helpu i uno cymeriad yr ardal a dyrchafu ansawdd tir y cyhoedd. Gellid llunio canllawiau pellach ar ddylunio arwyddion a dodrefn stryd yn yr ardal gadwraeth, i sicrhau bod modd cyflawni ymagwedd gyson, o ansawdd uchel.<br><br>Mae yna gyfle i gyflwyno goleuadau stryd mwy traddodiadol, ynghyd â deunyddiau palmant mwy traddodiadol, a rhagor o blanhigion ar y stryd  trwy'r ardal gadwraeth gyfan. |  |
| **4.0** | **Dulliau trin ffiniau, ynghyd â pharcio** | | |
| 4.1 | Mae'r cynnydd o ran y galw am fannau parcio ar safleoedd ac ar y stryd wedi arwain at golli dulliau trin ffiniau hanesyddol i ymgorffori lloriau caled, yn enwedig ar Heol Newydd a Heol yr Eglwys. | Dylid cefnogi cynlluniau i adfer waliau terfyn traddodiadol. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli waliau terfyn hanesyddol traddodiadol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddydau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwneud addasiadau i waliau terfyn hanesyddol, waeth pa mor uchel ydynt. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth | |
|---|---|---|---|
| 4.2 | Mae defnyddio Stryd y Brenin ar gyfer parcio wedi erydu cymeriad blaenorol y farchnad hanesyddol, ac wedi effeithio'r modd y defnyddir y man trefol mwyaf o fewn yr Ardal Gadwraeth. | Dylid ystyried llunio uwchgynllun sy'n ystyried dyfodol y man trefol pwysig hwn, gan gynnwys ystyried ei reolaeth, ei ddefnydd (achlysurol a pharhaol), deunyddiau wynebu a dodrefn. |  |
| 4.3 | Ceir nifer fawr o ddulliau trin ffiniau hanesyddol ledled yr Ardal Gadwraeth, gan gynnwys waliau o waith rwbel a rheiliau a giatiau metel.<br><br>Yn lle mae deunyddiau modern wedi cymryd lle ffiniau hanesyddol, mae'n amlwg eu bod yn anghydnaws, yn enwedig o ran mannau lle ceir cysondeb o ran golygfeydd, ynghyd â golygfeydd pellach o'r strydoedd, er enghraifft yn Ffordd y Gogledd a Heol Cilgant. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydgysylltiedig i fynd i'r afael â goleuadau, deunyddiau, dulliau trin ffiniau, ynghyd â dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adfer i wella golwg strydoedd, gan gynnwys cael gwared â blerwch, cynnal a chadw mannau sydd angen eu paentio, ynghyd â chyflwyno deunyddiau wyneb a dodrefn stryd priodol. |  |

| Eitem | Problem | Rheolaeth |
| --- | --- | --- |
| **5.0** | **Dyluniad blaenau siopau** | |
| 5.1 | Mae cyfraniad blaenau siopau i'r Ardal Gadwraeth yn arwyddocaol, a gall cynnwys dyluniadau amhriodol ar flaenau siopau gael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal. Ceir ambell enghraifft o flaenau siopau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth. Yn lle mae'r rhain yn bodoli, maent yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at y strydlun, a gallant ysbrydoli dyluniadau at y dyfodol sy'n adlewyrchu treftadaeth yr ardal. Mae nodweddion sy'n cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd yn cynnwys: | Yn lle mae blaen siop presennol yn cynrychioli enghraifft dda o arddull cynharach sy'n briodol o ran cymeriad yr ardal ac adeilad y siop dan sylw, dylid ei gadw a'i adnewyddu yn hytrach na chael ei ail-wneud o'r newydd. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli blaenau siopau ac arwyddion hanesyddol. O ran gosod blaenau siopau a chanddynt ddyluniad mwy priodol, yn lle rhai modern nad ydynt yn cyd-fynd â'r adeilad, mae gan hyn y potensial i wella golwg adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth yn sylweddol, a dylid cefnogi cynigion o'r fath.  |
| | Diffyg ystyriaeth o'r cysylltiad rhwng y llawr gwaelod a'r adeilad uwchben. Er enghraifft, o ran sicrhau bod baeau o'r un lled, ynghyd â chydnabod manylion pensaernïol ac arddull yr adeilad presennol. | Dylai blaenau siopau sy'n cael eu gosod o'r newydd adlewyrchu graddfa a mesuriadau'r adeilad y maent yn rhan ohono. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion, i gyfleu arfer dda o ran y defnydd o ddeunyddiau a dylunio. |
| | Ffasgiâu mawr, nad ydynt yn gymesur â'r rheiny a geir ar adeiladau cyfagos, neu sy'n rhy fawr ar gyfer ffryntiad yr adeilad, ac yn gorchuddio manylion hanesyddol sy'n goroesi. | Dylai blaenau siopau sy'n cael eu gosod o'r newydd adlewyrchu graddfa a mesuriadau'r adeilad y maent yn rhan ohono. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion, i gyfleu arfer dda o ran y defnydd o ddeunyddiau a dylunio. |
| | Y defnydd o arwyddion amhriodol, gan gynnwys arwyddion sydd wedi'u goleuo. | Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion a chanopïau amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad a golwg traddodiadol yr ardal, gan gynnwys adeiladau sydd wedi'u goleuo. |
| | Y defnydd o ddeunyddiau neu liwiau cyfoes, amhriodol, fel Perspex, PVC neu alwminiwm, nad yw eu natur adlewyrchol fel arfer yn ategu'r palet o ddeunyddiau a ddefnyddir o fewn yr Ardal Gadwraeth neu ar adeiladau cyfagos. | Dylai blaenau siopau sy'n cael eu gosod o'r newydd adlewyrchu graddfa a mesuriadau'r adeilad y maent yn rhan ohono. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion, i gyfleu arfer dda o ran y defnydd o ddeunyddiau a dylunio. |

| Eitem | Problem | Rheolaeth |
| --- | --- | --- |
| | Gweddau dau ddimensiwn, gan gynnwys llawer o blatwydr, sy'n cymryd drosodd y talwyneb ac yn anghydnaws iawn â'r modd y triniwyd gwedd yr adeilad uwchben. | Dylai blaenau siopau sy'n cael eu gosod o'r newydd adlewyrchu graddfa a mesuriadau'r adeilad y maent yn rhan ohono. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion, i gyfleu arfer dda o ran y defnydd o ddeunyddiau a dylunio. |
| | Colli polion stondin ('stallrisers') sy'n darparu sail i flaen y siop uwchben, ac yn ei wreiddio o fewn y strydlun. | Yn lle mae blaen siop presennol yn cynrychioli enghraifft dda o arddull cynharach sy'n briodol o ran cymeriad yr ardal ac adeilad y siop dan sylw, dylid ei gadw a'i adnewyddu yn hytrach na chael ei ail-wneud o'r newydd, gan gynnwys unrhyw nodweddion fel polion stondin. |
| | Gosod caeadau diogelwch allanol sy'n gallu cael effaith amlwg ar olwg allanol adeilad, ynghyd â chyfrannu at ymdeimlad o ddiffyg diogelwch. | Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn caeadau diogelwch amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad a golwg traddodiadol yr ardal. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio. |
| | Cyflwyno adlenni neu ganopïau o faint amhriodol, nad ydynt yn aml o ddeunydd traddodiadol, sy'n torri ar rythm y terasu a'r llinell adeiladu. | Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion a chanopïau amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad a golwg traddodiadol yr ardal. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio, gan gynnwys sut i ymgorffori adlenni a chanopïau. |
| | Pwysau'r brandio sy'n gysylltiedig â siopau cadwyn, sydd yn aml yn dilyn ymagwedd unffurf, heb ystyried nodweddion unigol adeiladau. | Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad a golwg traddodiadol yr ardal. |
| | Colli arwyddion crog traddodiadol. | Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli arwyddion crog traddodiadol.<br>Dylid annog cyflwyno arwyddion crog, gan eu bod o fudd mawr i gymeriad gweddau strydoedd ac yn lleihau'r pwysau i ddarparu arwyddion sy'n rhy fawr neu rai ychwanegol mewn mannau eraill. |

| Eitem | Problem | Rheolaeth |
|---|---|---|
| | Uno adeiladau trwy flaenau siop estynedig, nad yw'n parchu'r gwahaniaeth rhwng yr adeiladau uwchben. | Dylai blaenau siopau sy'n cael eu gosod o'r newydd adlewyrchu graddfa a mesuriadau'r adeilad y maent yn rhan ohono. Dylid cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion, i gyfleu arfer dda o ran y defnydd o ddeunyddiau a dylunio. |
| **6.0** | **Golygfeydd a lleoliad** | |
| 6.1 | Mae'r mannau gwyrdd presennol at ymyl yr afon yn gofyn am fesurau gwarchodaeth effeithiol a pharhaus, yn enwedig yn ystod gwaith datblygu ac addasu newydd. Gall colli coed terfyn newid golygfeydd allweddol yn sylweddol ar hyd yr Ardal Gadwraeth. | Dylid mynd ati i gynnal a chadw mannau gwyrdd arwyddocaol, a dylid mabwysiadu prosesau rheoli sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig, a'u gwerth o safbwynt ecolegol, yn cael eu gwarchod a'u gwella. Ceir cyfle i blannu rhagor o goed a phlanhigion eraill i wella golwg yr ardal gadwraeth, ynghyd â'i photensial o ran bioamrywiaeth, a dylid annog hyn. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal. |
| 6.2 | Mae strydoedd cefn a'r tu ôl i adeiladau'n rhan o'r Ardal Gadwraeth, sy'n cynnwys cipolwg ar y golygfeydd y tu hwnt i'r brif ffordd drwodd. O ganlyniad i'r hyn a welir fel diffyg gweledd, gall yr ardaloedd hyn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol fel taflu ysbwriel, difrod i adeiladau, tir y cyhoedd, a graffiti. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn dioddef diffyg gwaith cynnal a chadw cyffredinol, o ran tir y cyhoedd a dulliau trin ffiniau, sy'n erydu cymeriad yr ardaloedd hyn. | Dylid asesu cynigion ar gyfer datblygu yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad a golwg strydoedd cefn a'r tu ôl i adeiladau, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif ffyrdd drwodd. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod yr ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau yr ystyrir y byddant yn achosi niwed. |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth |
|---|---|---|
| 6.3 | Mae topograffi'r tir yn caniatáu golygfeydd panoramig i'r pellter mewn cyffyrdd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, ynghyd â rhwng adeiladau, a lle nad oes unrhyw ddatblygiadau ar y ffiniau dwyreiniol a deheuol. Gallai adeiladau sy'n amharu ar y nodwedd hon gael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth. | O ran datblygiadau o fewn lleoliad yr ardal gadwraeth, dylid eu hasesu'n ofalus i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau yr ystyrir y byddant yn achosi niwed.<br>Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei lleoliad guddio neu dynnu oddi wrth olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, i gyfeiriad yr ardal gadwraeth, neu o gyfeiriad yr ardal. Cafodd golygfeydd a thirnodau pwysig eu hamlygu o fewn yr arfarniad, fodd bynnag, gellir canfod rhagor trwy arfarniadau eraill.<br>O ran cynigion y mae'n bosib y byddant yn dod o fewn golygfeydd pwysig ac yn effeithio'r golygfeydd hynny sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, ynghyd â'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, dylid eu hasesu'n ofalus.<br>Efallai y bydd angen golygfeydd sydd wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur, ac wedi'u gwirio, sy'n dangos effeithiau posibl cynigion er mwyn egluro'r effaith ar gymeriad a golwg yr ardal neu ei lleoliad. |
| 6.4 | Gall fod yn anodd gwarchod golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth, gan y gall yr adeiladau hynny a chanddynt y potensial i effeithio golygfeydd allweddol fod y tu allan i ardaloedd gwarchodedig fel yr Ardal Gadwraeth; efallai nad yw eu heffaith bob amser yn gwbl amlwg dim ond ar ôl eu hadeiladu. Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno adeiladau uchel y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, neu'r rheiny ar dir uwch sy'n effeithio golygfeydd o'r dirwedd ymhellach draw yn y pellter. | O ran datblygiadau o fewn lleoliad yr ardal gadwraeth, dylid eu hasesu'n ofalus i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau yr ystyrir y byddant yn achosi niwed.<br>Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei lleoliad guddio neu dynnu oddi wrth olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth,<br>i gyfeiriad yr ardal gadwraeth, neu o gyfeiriad yr ardal. Cafodd golygfeydd a thirnodau pwysig eu hamlygu o fewn yr arfarniad, fodd bynnag, gellir canfod rhagor trwy arfarniadau eraill.<br>O ran cynigion y mae'n bosib y byddant yn dod o fewn golygfeydd pwysig ac yn effeithio'r golygfeydd hynny sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, ynghyd â'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, dylid eu hasesu'n ofalus.<br>Efallai y bydd angen golygfeydd sydd wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur, ac wedi'u gwirio, sy'n dangos effeithiau posibl cynigion er mwyn egluro'r effaith ar gymeriad a golwg yr ardal neu ei lleoliad. |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth |
|---|---|---|
| **7.0 Ailddatblygu** | | |
| 7.1 | Ceir dau fwlch mawr yn y llinell adeiladu ar y ffin ddwyreiniol a de-ddwyreiniol yn lle gellir gweld golygfeydd panoramig o'r dirwedd amgylchynol. Byddai cynnwys adeiladau o fewn y terfynau hyn yn effeithio'r rhan arwyddocaol hon o gymeriad yr ardal, ac felly byddai angen eu lleoli a'u dylunio'n ofalus. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. O ran lle mae adeiladau terfyn yn cael eu datblygu, mae angen asesu eu heffaith. |
| 7.2 | Oherwydd y tir agored a geir yn bennaf o fewn Parc Dinefwr a Pharc Penlan, o ran unrhyw adeiladau a ddatblygir o fewn yr ardaloedd hyn, mae angen eu lleoli a'u dylunio'n ofalus fel nad ydynt yn amharu ar gymeriad yr ardaloedd hyn a'r golygfeydd o'r dirwedd i'r pellter. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. |
| 7.3 | Yn lle ceir strydoedd preswyl yn bennaf, gallai cyflwyno defnyddiau newydd, fel gweithgaredd masnachol, roi pwysau ar y strydoedd hyn o ran yr angen i gasglu a storio ysbwriel ynghyd â danfoniadau, a cholli adeiladwaith hanesyddol i gyflwyno blaenau siopau. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. O ran lle mae adeiladau terfyn yn cael eu datblygu, mae angen asesu eu heffaith. |
| 7.4 | Mae terasau'n ffurfio nodwedd arwyddocaol o'r Ardal Gadwraeth. Gallai rhannu perchnogaeth adeilad, neu gynnwys unedau manwerthu ar loriau gwaelod, greu ymagwedd ddigyswllt o ran y modd y gwneir gwaith cynnal a chadw ac addasiadau rhwng adeiladau sydd fel arall yn unedig. | Mae angen deall effaith newid defnydd adeiladau yn llawn, i sicrhau nad oes unrhyw niwed cysylltiedig a allai amharu ar yr Ardal Gadwraeth. |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth |
|---|---|---|
| 7.5 | Mae lleiniau cornel yn byrth pwysig i mewn i'r Ardal Gadwraeth a cheir sawl enghraifft o adeiladau cornel sydd wedi'u dylunion dda ledled yr ardal. Os caiff lleiniau cornel eu hailddatblygu heb ystyriaeth briodol o nodweddion yr Ardal Gadwraeth, gall hyn wanhau'r profiadau allweddol a geir ohonynt. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw yr ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad llain, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. O ran unrhyw gynlluniau i ailddatblygu adeiladau cornel neu godi rhai newydd yn eu lle, mae angen dealltwriaeth o'u heffaith a'r modd y gallant helpu i gryfhau'r pwyntiau allweddol hyn. |
| 7.6 | Gall defnyddio deunyddiau modern, nad ydynt yn ategu neu'n briodol ar gyfer y palet o ddeunyddiau sy'n bodoli eisoes, erydu cymeriad ac arwyddocâd hanesyddol yr Ardal Gadwraeth. Er y dylai adeilad fod yn nodweddiadol o'i gyfnod, bydd parchu'r palet gwreiddiol o ddeunyddiau i ryw raddau yn sicrhau cysondeb. | Dylai cynigion ar gyfer datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw'r ardal gadwraeth a'i lleoliad, a'u parchu, a dylent fod yn briodol o ran eu graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, lleoliad lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a'u dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, yn nhermau ei ddyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai unrhyw waith ar adeiladau hanesyddol, ynghyd ag addasiadau ac estyniadau, ymateb mewn modd cadarnhaol i arddull pensaernïol gwreiddiol yr adeilad, ynghyd â'i leoliad, a dylai wella ei olwg traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at y Canllaw Creu Lleoedd 2020. |
| **8.0** | **Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol** | |
| 8.1 | Mae lliwiau llachar y terasau'n rhan ddeniadol o'r Ardal Gadwraeth, ac yn ei bywiogi. Gallai cyflwyno lliwiau amhriodol amharu ar y rhythm hwn ac effeithio'r golygfeydd trwy'r ardal. | Cyhoeddi canllaw dylunio ar y lliwiau nodweddiadol, y manylion pensaernïol fel ffenestri a deunyddiau a geir yn yr ardal. Gellid ystyried y defnydd ehangach o Gyfarwyddydau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau i liwiau paent. |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth |
|---|---|---|
| **9.0** | **Dymchwel Adeiladau** | |
| 9.1 | O ran adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth, gall eu dymchwel, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, erydu ansawdd pensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys adeiladau cyfan ar gyfer gwneud gwaith ailddatblygu, neu rannau o ardaloedd, fel simneiau, waliau terfyn neu estyniadau. | Ceir llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau o werth, nad ydynt yn rhestredig, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth gref y dylid cadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol. |
| 9.2 | O ran cyflwr gwael adeiladau gwag, neu sydd heb eu cynnal a chadw'n ddigonol, gellir eu defnyddio i ddwyn pwysau ar yr Awdurdod Lleol i'w dymchwel a'u hailddatblygu. Gall hyn greu camddealltwriaeth bod cynllun ailddatblygu ar raddfa fawr yn briodol, pryd y gallai camau gofalus i reoli addasiadau at y dyfodol adfer cymeriad gwreiddiol yr adeiladau hyn, a gwella'r Ardal Gadwraeth, gan osgoi colli'r carbon sydd wedi'i ymgorffori y mae wedi'i ddisbyddu eisoes yn ystod y gwaith adeiladu gwreiddiol. | Yn lle ceir tystiolaeth o esgeulustod bwriadol, neu ddifrod i ased treftadaeth, ni ddylid ystyried cyflwr dirywiedig yr ased wrth wneud unrhyw benderfyniad. Ceir llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau o werth, nad ydynt yn rhestredig, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth gref y dylid cadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion.<br>Os cynigir eu dymchwel, dylid ystyried cylch oes gyfan carbon, gan ystyried y carbon sydd wedi'i ymgorffori o ran yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol i gadw ac addasu'r adeilad presennol, yn hytrach na chodi adeilad newydd yn ei le.<br>Dylid rhoi anogaeth i ofalu am adeiladau traddodiadol a hanesyddol o fewn yr ardal, a'u hailddefnyddio, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, trwy well gwaith cynnal a chadw, rheolaeth a mesurau effeithlonrwydd ynni. Dylid rhoi anogaeth i adfer nodweddion traddodiadol trwy lunio canllaw dylunio'n benodol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Rhaid cyflwyno ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol. |

| Eitem | Bygythiad | Rheolaeth |
|---|---|---|
| **10.0** | **Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd** | |
| 10.1 | Gall cyflwyno arwyddion sydd wedi'u lleoli a'u dylunio'n wael amharu ar olygfeydd trwy'r Ardal Gadwraeth, a chael effaith negyddol ar leoliad adeiladau allweddol. Os cyflwynir seilwaith newydd ar Heol Newydd, rhaid parchu'r golygfeydd trwy'r ardal, ac i mewn ac allan o'r ardal. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar gyfer dylunio strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydlynol o ran deunyddiau a dyluniadau. |
| 10.2 | Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o hanes y dref a phryd bynnag mae'r rhain yn goroesi, dylid eu cynnal. | Gellid cynhyrchu rhagor o ganllawiau ar ddylunio arwyddion yn yr Ardal Gadwraeth ac ymgorffori enwau lleoedd Cymraeg ar enwau lleoedd a ffyrdd. |
| **11.0** | **Coed a Thirweddu** | |
| 11.1 | Gall colli coed ar strydoedd neu ar ffiniau lleiniau greu bylchau o ran plannu, ynghyd â bod yn anghydnaws a'r ardal amgylchynol. Mae'r cyrion a'r mannau gwyrdd yn bwysig o ran eu bod yn torri ar ddwysedd uchel yr ardal drefol, a gall eu colli wneud niwed sylweddol i gymeriad yr ardal. | Ceir cyfle i blannu rhagor o goed a phlanhigion eraill i wella golwg yr ardal gadwraeth, ynghyd â'i photensial o ran bioamrywiaeth, a dylid annog hyn. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i warchod a gwella'r ardal gadwraeth, a cheir rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr ardal. |
| 11.2 | Gall y defnydd o goed, fflora a ffawna estron fynd yn groes i'w hamgylchfyd os cânt eu dewis heb roi ystyriaeth ddyledus i'w cyd-destun. | Dylid annog y defnydd o goed, fflora a ffawna brodorol pan gaiff cynlluniau tirlenwi meddal eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. |

## 12.0 Cyffredinol

12.1 Archaeoleg

Wrth ystyried unrhyw gynnig arwyddocaol ar gyfer datblygiad, dylid mynd ati i asesu'r effaith bosibl ar olion archaeolegol mewn modd proffesiynol, a chael cyngor o ran y modd gorau o'u gwarchod a'u diogelu. Dylid hefyd ystyried sut allai defnydd blaenorol y safle, a'i hen strwythurau ac adeiladau, ddylanwadu ar ddylunio elfennau newydd.

12.2 Argyfwng yr Hinsawdd

O ran cynigion ar gyfer gwaith ôl-osod i wella effeithiolrwydd ynni, dylid eu hystyried yn ofalus i sicrhau eu bod yn gydnaws â deunyddiau adeiladu traddodiadol, ynghyd â'u swyddogaeth a'u harwyddocâd.

Os cynigir eu dymchwel, dylid ystyried cylch oes gyfan carbon, gan ystyried y carbon sydd wedi'i ymgorffori o ran yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol i gadw ac addasu'r adeilad presennol, yn hytrach na chodi adeilad newydd yn ei le.

Dylid rhoi anogaeth i ofalu am adeiladau traddodiadol a hanesyddol o fewn yr ardal, a'u hailddefnyddio, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, trwy well gwaith cynnal a chadw, rheolaeth a mesurau effeithlonrwydd ynni.

12.3 Gweithredu ac Adolygu

Mae angen cadw at yr holl ddyletswyddau statudol o dan y Deddfau Cynllunio sy'n deillio o ddynodiad ardal gadwraeth. Dylai'r cyngor fabwysiadu'r argymhellion a wneir yma a llunio cynllun rheoli ffurfiol (bwriedir y bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio'r sail i hwn) a gaiff ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y polisïau'n dal i fod yn ddefnyddiol a pherthnasol. Dylai'r cyngor geisio ymgymryd ag astudiaethau perthnasol eraill, ynghyd â llunio canllawiau pellach, fel y nodir yma, os oes adnoddau ar gael i wneud hyn.

12.4 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth

Dylid darparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gan ymgeiswyr, os ystyrir bod cynnig yn effeithio'r ardal gadwraeth (naill ai o fewn y ffin neu ei lleoliad) neu ased treftadaeth oddi mewn iddi.

## 9.0 Cyfleoedd

Mae'r cyfleoedd a ganlyn yn cyfeirio at bosibiliadau a nodwyd o ran dadwneud niwed, gwella'r ardal a'r gwerthfawrogiad ohoni, neu reoli datblygiadau. Nodwyd y rhain trwy baratoi'r ddogfen hon a'r adran yng nghyswllt problemau, bygythiadau a rheolaeth.

1. Ceir palmantau lletach mewn dau le ar wedd de-ddwyreiniol swyddfeydd y Cyngor, ac yng nghyffordd Heol Newydd a Stryd Caerfyrddin. Byddai integreiddio tirweddu meddal neu ddodrefn tir y cyhoedd o ansawdd uchel, fel meinciau, cynwysyddion planhigion, arwyddion neu lanternau, yn helpu i gael mwy o fudd o'r mannau hyn ac yn gwella un o'r pyrth i mewn i'r Ardal Gadwraeth.

2. Gwelir nifer o leiniau caled a ffiniau cyfoes, gan gynnwys waliau a rheiliau ym mhen gogleddol Stryd Rhosmaen, sy'n gwanhau'r gyffordd allweddol hon i mewn i'r Ardal Gadwraeth. Byddai ailgyflwyno ffiniau hanesyddol yma, neu newid deunyddiau cyfoes i rai sy'n fwy sensitif o safbwynt hanesyddol, yn dyrchafu'r ardal hon yn fawr.

3. Mae traffig wedi cymryd drosodd yr Ardal Gadwraeth i raddau helaeth, ond gall fod yn anodd lleihau ei effaith heb gyflwyno ffordd osgoi ar gyfer y dref. Ond, diolch i'r drefn, llwyddwyd i wrthsefyll y math o seilwaith sy'n cyd-fynd â hyn, fel arwyddion traffig, bolardiau a goleuadau traffig. Os oes cyfle, byddai symud yr arwyddion 'dim ffordd drwodd' i Lôn-y-Llan a Theras yr Abaty yn helpu i wella'r golygfeydd i mewn i'r strydoedd hyn.



1a



1b



2



3a

4. Fel y mae'r cyfle'n codi, o ran terfynau gerddi blaen cyfoes Heol Cilgant a Heol Newydd, bydd eu hatgyweirio a gosod rhai newydd yn eu lle, ag iddynt ddeunyddiau a dyluniad sy'n gydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal, yn helpu i adfer cysondeb o ran y gweddau stryd hyn.
5. Stryd y Brenin oedd lleoliad blaenorol y farchnad, a dyma'r man trefol mwyaf o fewn y dref. Mae cyflwyno mannau parcio yma wedi dileu'r posibilrwydd o all defnyddio'r ardal hon i'w phwrpas gwreiddiol, neu er mwyn i bobl gael cymryd saib ac ystyried yr hyn sydd o'u cwmpas. Gallai cael gwared â'r mannau parcio a chreu ardal i gerddwyr yno ddarparu canolbwynt ar gyfer digwyddiadau, a byddai'n fodd o ailgyflwyno cymeriad y farchnad flaenorol.
6. Mae bron bob ffordd a phalmant o fewn y dref yn rhai tarmac, sy'n cynyddu effaith y rhwydwaith ffyrdd ar y dref. Byddai ymagwedd unedig tuag at wynebau caled, gan gynnwys y posibilrwydd o greu ardal i gerddwyr, yn sicrhau ymagwedd gyson, o ansawdd uchel, tuag at dir y cyhoedd, fel y mae'r cyfle i ail-wynebu'n codi.




3b




4



5



6




- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Maes cyfle



# Atodiadau

## Atodiad I: Llyfryddiaeth


**Cyhoeddiadau**

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (legislation.gov.uk)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 well-being-of-future-generations-wales-act-2015-the-essentials.pdf (gov.wales)

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, Chwefror 2021 Planning Policy Wales - Edition 11 (gov.wales)

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Adeiledig, 2017, Polisi Cynllunio Cymru Planning Policy Wales Note 24 May 2017 (gov.wales)

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017 Managing Change in World heritage Sites in Wales (gov.wales)

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw Conservation Principles Doc ENG (gov.wales)

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru, Medi 2021 Microsoft Word - SWW Regional Economic Delivery Plan FINAL (gov.wales)

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021 Report.pdf (gov.wales)

Canllaw Creu Lleoedd 2020 PlacemakingGuideDigitalENG. pdf (dcfw.org)

**Gwefannau**

British Listed Buildings, amryw ddyddiadau, British Listed Buildings - History in Structure, 1-10fed Ebrill 2022

Llyfrgell Cenedlaethol Cymru, 2021, Mapiau Degwm Cymru, Welsh Tithe Maps - Home (library.wales) 14eg Ebrill 2022


Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, 2021, Mapiau OS ag iddynt wahanol ddyddiadau, Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland (nls.uk) 1af – 14eg Ebrill 2022

Coflein, 2021, Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwydiannol a morol yng Nghymru, https://coflein.gov.uk/en/ 25ain – 28ain Ebrill 2022

# Atodiad II: Geirfa

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| A4D | Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio Gorchmynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio. |
| BAR | Adeilad Mewn Perygl | Cofrestr adeiladau, a gynhelir gan awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchweliad neu golled arall. Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem. |
| AG | Ardal Gadwraeth | Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu wella |
| GAG | Gwerthusiad Ardal Gadwraeth | Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr AG ar adeg benodol |
| CPO | Gorchymyn Prynu Gorfodol | Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg |
| | Ffasgia | Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop |
| CSC | Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| GDO | Gorchymyn Datblygu Cyffredinol | Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer |
| | Cadw | Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirwedd a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru |
| ARh | Adeilad Rhestredig | Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar restr adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd I am y pwysicaf, Gradd II* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd II am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm |
| | Llain Tir Bwrdais | Mae llain tir tir bwrdais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hŷn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol |

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| LBC | Caniatâd Adeilad Rhestredig | Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol |
| CLl | Cynllun Lleol | Dogfen a baratowyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol yn nodi ei bolisi cynllunio am gyfnod penodol i ddod; bydd yn cynnwys polisi ynghylch yr amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill. |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru | Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio |
| Deddf P(LBCA) 1990 | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol |
| | Hysbysiad Atgyweirio | Hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf P(LBCA) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion neu feddianwyr wneud atgyweiriadau brys i adeiladau rhestredig |
| Sn215 | Hysbysiad Adran 215 | Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal |
| SPG | Canllawiau Cynllunio Atodol | Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw |
| TPO | Gorchymyn Cadw Coed | Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol |




G

0 100 200 400
Graddfa m


ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau

Ardal Gadwraeth Llandeilo

Map o'r Ffiniau

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377




G

0 20 100

Graddfa m


ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau

1. Ardal Gymeriad Rhan Uchaf y Dref
2. Ardal Gymeriad Teilo Sant
3. Ardal Gymeriad Parc Penlan
4. Ardal Gymeriad Ystad Dinefwr

Ardal Gadwraeth Llandeilo

Ardaloedd Cymeriad Arfaethedig

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377




G

0 20 100


Graddfa m

ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Adeiladau cadarnhaol
- Adeiladau amharol

Ardal Gadwraeth Llandeilo

Cyfraniad Adeiladau

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377





ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Adeiladau rhestredig Gradd I
- Adeiladau rhestredig Gradd II*
- Adeiladau rhestredig Gradd II
- Henebion Cofrestredig
- Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Adeiladau a strwythurau pwysig heb eu rhestru

**Ardal Gadwraeth Llandeilo**

Map o'r Dynodiadau

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377




G

0 100 200 400

Graddfa m


ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Adeiladau rhestredig Gradd I
- Adeiladau rhestredig Gradd II*
- Adeiladau rhestredig Gradd II
- Henebion Cofrestredig
- Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Adeiladau a strwythurau pwysig heb eu rhestru

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

## Ardal Gadwraeth Llandeilo

Map o'r Dynodiadau




G

0 20 100

Graddfa m


ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau gwyrdd
- Parciau
- Gerddi preifat/lled-breifat
- Coed
- Grŵp o goed
- Gorchymyn Cadw Coed (TPO)

**Ardal Gadwraeth Llandeilo**

Coed, Mannau Gwyrdd, Parciau a Gerddi

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377




G

0 100 200 400

Graddfa m


ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau gwyrdd
- Parciau
- Gerddi preifat/lled-breifat
- Coed
- Grŵp o goed
- Gorchymyn Cadw Coed (TPO)

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

## Ardal Gadwraeth Llandeilo

Coed, Mannau Gwyrdd, Parciau a Gerddi




G

0 20 100

Graddfa m


ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Blaen siopau hanesyddol
- Nodwedd o'r treflun
- Celfi stryd
- Tŵr / meindwr

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Ardal Gadwraeth Llandeilo

Llecynnau Cyhoeddus




G

0 20 100

Graddfa m

ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo
- Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau gwyrdd cadarnhaol / wedi'u tirlunio / coed
- Toeau arwyddocaol
- Y prif dirnod / adeiladau allweddol
- Golygfeydd pwysig o'r dirwedd
- Golygfeydd pwysig o'r stryd
- Golygfeydd caeëdig
- Golygfeydd terfynedig
- Golygfeydd allwyredig

**Ardal Gadwraeth Llandeilo**


Dadansoddi Gofodol


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

## Atodiad IV: Adolygiad Ffiniau

Fel rhan o baratoi'r Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth, ymgymerwyd ag adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth er mwyn deall y rhesymeg dros ddynodi'r ardal, a ph'un a ddylid ail-lunio'r ffin hon bellach o ganlyniad i ddatblygiadau ers ei dynodiad cychwynnol. Ymgymerwyd â'r adolygiad hwn trwy gyfres o arolygon safle, yn ogystal ag ymchwil pen desg ac ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Cynigir y dylid gwneud dau addasiad i Ardal Gadwraeth Llandeilo, y gellir eu gweld ar y map a ganlyn. Cynigir hefyd y dylai Ystad Dinefwr ddod yn Ardal Gadwraeth ar wahân. Nodir y lleoliadau, y ffiniau, a'r rhesymau dros yr addasiadau hyn isod:




Ffiniau Ardal Gadwraeth Llandeilo

Ymyl y ffiniau nad ydynt wedi'u cadarnhau

Y newid arfaethedig 1

Y newid arfaethedig 2

**Ardal 1 – Y maes parcio ar gornel Heol Newydd a Stryd Rhosmaen**

*Estyniad i'r ffin gyfredol*

Mae'r gornel hon yn borth pwysig i mewn i'r Ardal Gadwraeth ac mae'n wynebu adeilad cornel sylweddol gyferbyn. Fel y cyfryw, gallai unrhyw ddatblygiad ar y safle hwn yn y dyfodol newid y golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth, a thrwy'r ardal, yn sylweddol. Byddai ei chynnwys yn helpu i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn y lleoliad hwn yn ymateb i nodweddion yr Ardal Gadwraeth amgylchynol.



**Ardal 2 – Heol Alan a Heol Latimer**

*Estyniad i'r ffin gyfredol*

Mae gan y ffyrdd hyn nifer o adeiladau o ansawdd dda sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif, sy'n nodweddiadol o'r Ardal Gadwraeth, gan gynnwys yr hen Gapel Methodist Wesleaidd. Byddai eu cynnwys yn fodd o gydnabod eu hansawdd yn ogystal â'r nodweddion a rennir rhyngddynt â strydoedd eraill sydd wedi'u cynnwys eisoes. Byddai hefyd yn helpu i gryfhau pen gogleddol Stryd Rhosmaen, sy'n llwybr allweddol trwy'r Ardal Gadwraeth, a chanddo nifer o olygfeydd i mewn ac allan o'r ardal.



**Ystad Dinefwr**

*Creu Ardal Gadwraeth ar wahân*

Mae gan Ystad Dinefwr a thref Llandeilo ddwy nodwedd hanesyddol a phensaernïol wahanol iawn. Yn Ystad Dinefwr, ceir ychydig iawn o adeileddau o fewn tirwedd ddynodedig, ac o ran tref Llandeilo, ceir canol tref a chanddi adeiladau masnachol ac anheddau preswyl. Hefyd, mae angen dwy ymagwedd wahanol iawn o ran rheoli'r mannau hyn.

Fel y cyfryw, cynigir y dylid rhannu'r Ardal Gadwraeth bresennol yn ddwy, gydag Ystad Dinefwr yn dod yn Ardal Gadwraeth ynddi'i hun, a fyddai'n caniatáu i'r nodweddion hyn gael eu cydnabod.



Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn nodi'r gofynion a ganlyn:

- Local planning authorities to determine areas where it is desirable to preserve and enhance, and designate them as conservation areas (adran 69
- [1])
- Local planning authorities to review their past activities in this area, including existing
- conservation areas, and to add more conservation areas (adran 69 [2])
- Local planning authorities to formulate and publish proposals for the preservation and enhancement of conservation areas and consult the public in the area in question, taking account of views expressed (adran 71 [1 a 2])
- In the exercise by local planning authorities of planning functions within the conservation area 'special attention shall be paid to the desirability of preserving or enhancing the character or appearance of that area' (adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo llesiant. Mae'n rhaid iddynt nodi a chyhoeddi amcanion llesiant a ddylunnir i sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y bo modd tuag at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Un o'r nodau hyn yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ac fe'i disgrifir fel 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg'. Ceir synergedd clir rhwng y ddyletswydd benodol i warchod neu wella ardaloedd cadwraeth, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 1990, ynghyd â'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo a gwarchod treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015. Gall ardaloedd cadwraeth a gaiff eu gwarchod a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant i bawb.

Polisi Cynllunio Cymru, Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol a elwir, gyda'i gilydd, yn asedau hanesyddol. Ystyrir fod ardaloedd cadwraeth yn asedau hanesyddol.
- Mae paragraff 6.1.6 yn nodi bod amcanion penodol LLywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn ceisio: [...] diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus.
- Mae paragraff 6.1.14 yn nodi y dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn diogelu neu gwella eu cymeriad a'u golwg a gwireddu eu gwerth treftadaeth yn llawn. Dylai awdurdodau cynllunio lunio eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth hen a/neu newydd a'u ffiniau. Gall paratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd cadwraeth gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau rheoli datblygiadau.
- Mae paragraff 6.1.15 yn nodi bod rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar sail buddiant cyhoeddus.
- Mae paragraff 6.1.16 yn nodi y gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai olygu bod datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol mewn ardal gadwraeth.
- Mae paragraff 6.1.17 yn nodi bod dynodi ardaloedd cadwraeth yn golygu y gellir rheoli'r gwaith o ddymchwel adeiladau anrhestredig o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archaeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn unol ag arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.
- Mae paragraff 6.1.29 yn nodi y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisïau penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac ymwneud yn unig â'r elfennau treftadaeth hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol. Gall gynnwys polisïau penodol i'r ardal leol yn ymwneud ag:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad. Gallant hefyd gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag

ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu.

- Mae paragraff 1.36 yn nodi bod gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio lleol ar fater sy'n gyfrifoldeb iddo ef yn y lle cyntaf, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid cyfiawnhau hynny. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio pwerau diofyn Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017, Polisi Cynllunio Cymru

Mae'r ddogfen hon yn nodi:

- Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a nhw sy'n cadw'r wybodaeth ddiffiniol am eu ffiniau.

  Gall awdurdod cynllunio lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol i'w helpu i gyflawni polisïau yn y cynllun datblygu lleol.

  Gallai canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel: Cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth.

- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gofyn i awdirdpdai cynllunio lleol nodi 'areas of special architectural or historic interest, the character or appearance of which it is desirable to preserve or enhance' a'u dynode fel ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd i ystyried p'un a oes angen rhagor o ddynodiadau neu ddiwygiadau. Mae gan WEinidogion Cymru bwerau hefyd i ddynodi ardaloedd cadwraeth ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Mae hon yn bŵer wrth gefn y'i defnyddir mewn achosion eithriadol, er enghraifft, lle bo'r diddordeb mewn ardal yn fwy na hynny ar lefel leol.

6.2 Mae dynodi ardaloedd cadwraeth yn sail i bolisïau y bwriedir iddynt ddiogelu neu wella pob agwedd ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal: gallai hyn gynnwys y patrwm anheddu neu'r modd y mae gofod a llwybrau wedi'u trefnu, yn ogystal ag arddull yr adeilad a'r math o adeilad, y deunyddiau a ddefnyddiwyd, a manylion yr adeilad. Gall seilwaith gwyrdd hefyd fod yn bwysig, ond nid yw dynodi ardaloedd cadwraeth yn debygol o fod yn ffordd briodol o warchod nodweddion tirwedd, oni bai eu bod yn rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

6.3 O bryd i'w gilydd mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Yn unol â'r arfer gorau, dylid gwneud hyn bob pump i ddeng mlynedd. Mae'n arfer da i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau cynllunio atodol.

Mae'n rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth wrth iddynt wneud penderfyniadau cynllunio. O dan amgylchiadau eithriadol, os nad yw ardal gadwraeth neu ran ohoni yn meddu ar y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei dynodi mwyach, ceir addasu neu ddileu'r dynodiad hwnnw.

6.4 Mae arfarniad o ardal gadwraeth yn sail i unrhyw gynigion ar gyfer ei diogelu a'i gwella. Mae'n rhoi darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a all fod yn sail i gynllun rheoli manylach. Dylai hefyd gynnwys dadansoddiad o anghenion polisi a rheoli'r ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd y rheolaethau cynllunio presennol a'r angen am fesurau gwarchod atodol, a dylai nodi ffyrdd o ddiogelu neu wella cymeriad arbennig. Bydd sail gadarnach i bolisïau mewn cynlluniau datblygu lleol ac i benderfyniadau rheoli datblygu sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth, a byddant hefyd yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol at nodau hirdymor, os diffinnir cymeriad pob ardal gadwraeth ac os nodir polisïau ar gyfer ei diogelu a'i gwella yn fanwl mewn cynllun rheoli. Gellir hefyd ystyried a ddylid cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn.

6.5 Mae gan ardaloedd cadwraeth, o ran eu natur, sawl rhanddeiliad a dylai trefniadau rheoli gynnig cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau.

Bydd cynigion ar gyfer diogelu a gwella hefyd yn fwyaf effeithiol pan fydd holl adrannau'r cyngor yn deall pwysigrwydd dynodi ardaloedd cadwraeth ac yn cydweithio. Felly, argymhellir yn gryf y dylid mabwysiadu dull tîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis yr adran briffyrdd a'r adran dai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu lleol gynnwys polisïau penodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol nodi'n glir y bydd cynigion datblygu'n cael eu barnu yn ôl eu heffaith ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth fel y'i nodir yn y ddogfen arfarnu a rheoli. Bydd angen paratoi datganiad dylunio a mynediad ar gyfer cynigion datblygu penodol o fewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o anhedd-dai neu ddarparu adeilad neu adeiladau lle bo'r arwynebedd llawr sy'n cael ei greu gan y datblygiad yn 100 o fetrau sgwâr neu'n fwy.

6.7 Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canol masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reoli newid mewn ffordd gadarnhaol sy'n hybu bywiogrwydd economaidd a bywyd cymdeithasol a diwylliannol ac sy'n cyd-fynd â nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig ardal. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad cadarnhaol neu sy'n amharu ar gymeriad neu olwg yr ardal; dylai'r broses o'u dileu er mwyn gwneud lle i ddatblygiadau newydd ysgogi gwaith cynllunio dychmygus, o safon uchel a chynnig cyfle i wella'r ardal.

6.8 Un o ddibenion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae'n rhesymol disgwyl i ddyletswydd yr awdurdod cynllunio lleol i roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth olygu, yn ymarferol, ei fod yn gosod safonau llymach pan fydd yn ystyried a ddylid rhoi cydsyniad ar gyfer hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath.

6.9 Mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol fod yn hyblyg o ran y defnydd a wnânt o'u pwerau o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, am fod llawer o ardaloedd yn cynnwys eiddo manwerthu a masnachol sy'n amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus. Mae hysbysebu awyr agored yn hanfodol i weithgarwch masnachol ac fel arfer, bydd llwyddiant busnesau lleol yn helpu perchenogion a thenantiaid eiddo masnachol i sicrhau bod adeiladau mewn cyflwr da ac yn edrych yn ddeniadol.

6.10 Mae angen cael cydsyniad ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, ond ceir rhai eithriadau. Yn y cyd-destun hwn, mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod dymchwel yn gyfystyr â thynnu adeilad i lawr fel ei fod wedi'i ddinistrio'n gyfan gwbl, neu o leiaf i raddau helaeth iawn. Felly, gallai gwaredu adeilad cyfan ac eithrio ei ffasad hefyd gyfrif fel gwaith dymchwel.

6.11 Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo nad oes angen cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer disgrifiadau penodol o adeiladau ac mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo nad oes angen cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer darnau penodol o waith. Mae'r darnau hyn o waith yn cynnwys dymchwel adeilad â chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 o fetrau ciwbig a dymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder ac sy'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu le agored, neu sy'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Mae hyn yn golygu na fydd llawer o ddarnau o waith sy'n cynnwys dymchwel ffabrig rhan o adeilad waith dymchwel ac na fydd cydsyniad ardal gadwraeth yn ofynnol ar eu cyfer.

6.12 Rhaid i geisiadau am gydsyniad i ddymchwel adeilad gael eu gwneud i'r awdurdod cynllunio lleol. Ar gyfer ceisiadau am gydsyniad ardal gadwraeth, bydd angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, a ddylai esbonio pam mae dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol, ynghyd ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu olwg yr ardal.

6.13 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylid asesu cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath yn unol â'r un meini prawf cyffredinol ag a ddefnyddir i asesu cynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler

5.15). Mewn achosion lle y tybir nad yw adeilad yn gwneud fawr ddim cyfraniad, os o gwbl, bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol, fel arfer, gael gwybodaeth lawn am yr hyn a gynigir ar gyfer y safle ar ôl dymchwel yr adeilad. Ni ddylid rhoi cydsyniad i ddymchwel adeilad heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio'r safle, oni bai bod ailddatblygu, ynddo ei hun, yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ystyried egwyddorion cyffredinol datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, ei faint a'i fàs, wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

6.14 Gall fod yn briodol gosod amod wrth roi cydsyniad i ddymchwel adeilad anrhestredig fel na fydd yn digwydd nes i ganiatâd cynllunio llawn gael ei roi a nes i gontract ar gyfer gwneud y gwaith datblygu gael ei lunio.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i warchod coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion diogelu coed. At hynny, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion diogelu coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu torri, blaendorri neu frigdorri coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw, gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid gwarchod y goeden honno drwy wneud gorchymyn diogelu coed.

6.16 Wrth ystyried a ddylid gwarchod coed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol a hanesyddol coed a'u cyfraniad at amwynder. Mewn rhai achosion, gall gwaith plannu newydd neu waith ailblannu fod yn ddymunol pan fyddai'n gydnaws â chymeriad neu olwg yr ardal.

6.17 Mae gan waith gorfodi rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolaethau rheoleiddiol, yn hytrach na dim ond ymchwilio pan wneir cwyn ffurfiol. Bydd ymagwedd gadarnhaol a gweithredol at waith gorfodi yn helpu i leihau nifer yr achosion o dorri rheoliadau ac i sicrhau gwelliannau parhaol i ansawdd amgylcheddol.

6.18 Mae gan ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol gan awdurdod cynllunio lleol, neu os bydd awdurdod cynllunio lleol yn methu â gwneud penderfyniad, ynghylch cais am gydsyniad ardal gadwraeth. Gellir cyflwyno apêl o dan amgylchiadau gan gynnwys y canlynol: Os bydd awdurdod cynllunio lleol: Yn gwrthod cais am gydsyniad ardal gadwraeth; Yn caniatáu cais am gydsyniad ardal gadwraeth yn ddarostyngedig i amodau; Yn gwrthod cais i amrywio neu ddiddymu'r amodau a osodwyd ar gydsyniad ardal gadwraeth; Yn gwrthod cais am gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan amod a osodwyd ar adeg caniatáu cydsyniad ardal gadwraeth; neu Yn methu â phenderfynu ar gais am gydsyniad o fewn wyth wythnos iddo gael ei ddilysu gan yr awdurdod cynllunio lleol.

6.19 Caiff apêl ei gwneud i Weinidogion Cymru ar ffurflen o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysir yr ymgeisydd am benderfyniad yr awdurdod cynllunio leol.

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol a'u gwella er mwyn diogelu a gwella eu cymeriad a'u golwg. Dylai hefyd helpu awdurdodau cynllunio lleol i ystyried Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) Cadw er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel.

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants